


Aseiad cyflym o sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed

Cyhoeddwyd 29 Hydref 2026



Cynnwys

Adran

1. Cyflwyniad	3
2. Rôl sicrwydd oedran effeithiol iawn o ran gweithredu'r cyfyngiadau oedran newydd	8
3. Asesu'r dulliau sicrwydd oedran sydd ar gael	14
4. Sut gellid cryfhau prosesau sicrwydd oedran?.....	29
5. Y camau nesaf.....	34

Trosolwg

Mae'r asesiad cyflym hwn yn ystyried sut beth allai sicrwydd oedran effeithiol iawn fod ar gyfer penderfynu a yw rhywun yn 16 oed neu'n hŷn. Rydym wedi'i gynhyrchu cyn y ddadl Seneddol ar reoliadau arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfyngiadau oedran ar gyfer gwasanaethau ar-lein, sy'n cynnwys cyfryngau ar bobl ifanc dan 16 oed sy'n a mynediad at wasanaethau cyfryngau cymdeithasol a rhai nodweddion a swyddogaethau peryglus.

Mae cynigion Llywodraeth y DU yn rhan o symudiad rhyngwladol ehangach tuag at gyfyngiadau oedran ar fynediad plant at gyfryngau cymdeithasol. Mae'r llywodraeth wedi datgan y bydd sicrwydd oedran effeithiol iawn, yn hytrach na'r meini prawf "camau rhesymol" a ddefnyddir yn Awstralia, yn hanfodol er mwyn gweithredu'r gwaharddiad yn llwyddiannus. Bwriad hyn yw ei gwneud yn anoddach i blant osgoi mesurau diogelu.

Rydym wedi seilio'r asesiad hwn ar y meini prawf a'r egwyddorion a nodir yn ein canllawiau presennol ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 18 oed. Felly, rydym wedi asesu dulliau yn erbyn meini prawf cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch, ac wedi ystyried egwyddorion hygyrchedd a'r gallu i ryngweithredu. Mae ein canllawiau presennol yn nodi saith dull sicrwydd oedran sy'n gallu bod yn effeithiol iawn yn 18 oed.

Mae ein hasesiad wedi nodi pedwar dull sicrwydd oedran sy'n gallu bod yn effeithiol iawn o ran penderfynu a yw rhywun yn 16 oed neu'n hŷn: paru ID llun, gwasanaethau hunaniaeth ddigidol, gwiriadau bancio ac amcangyfrif oedran yr wyneb. Mae hyn yn golygu bod llai o ddewis o ddulliau effeithiol iawn ar hyn o bryd yn 16 o'i gymharu ag 18 oed, ac nid yw ein hasesiad cyflym wedi amlygu dulliau newydd a fyddai'n barod cyn i'r gwaharddiad ddod i rym. Gall y farchnad ddatblygu atebion newydd ac arloesol unwaith y bydd cyfyngiadau oedran newydd ar waith, a byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad.

Mae pobl ifanc 16 a 17 oed yn fwy tebygol na phobl ifanc dros 18 oed o fod angen mynediad at ID â llun arno ac mae'n debygol y byddai angen i'r rheini heb ID gymryd camau i gael un i gael mynediad at wasanaethau â chyfyngiad oedran. Y rheswm am hyn yw, yn y dulliau a nodwyd yn yr asesiad cyflym hwn ar gyfer sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed, mae angen ID â llun naill ai fel rhan o'r dull ei hun, neu fel y dewis wrth gefn tebygol ar gyfer dulliau eraill, fel amcangyfrif oedran yr wyneb.

Bydd y cyfyngiadau oedran newydd hefyd yn effeithio ar oedolion sy'n defnyddio gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys y gwasanaethau mwyaf sy'n cael eu defnyddio'n eang gan bobl yn y DU. Er mwyn atal pobl ifanc dan 16 oed rhag cael mynediad at y gwasanaethau hyn neu nodweddion penodol, mae llawer o oedolion hefyd yn debygol o orfod dangos eu bod dros yr oedran hwnnw. Gall gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol ddefnyddio'r ystod ehangach o ddulliau a nodwyd gennym yn ein canllawiau presennol i benderfynu a yw defnyddwyr dros 18 oed, ac efallai na fydd angen i rai defnyddwyr sydd â chyfrifon presennol gwblhau gwiriad oedran os yw'r gwasanaeth eisoes yn dal gwybodaeth gywir a dibynadwy i gadarnhau eu bod dros yr oedran gofynnol.

Bydd cyflwyno sicrwydd oedran yn 16 oed yn golygu prosesu data personol ychwanegol. Fodd bynnag, gellir darparu'r dulliau sydd ar gael mewn ffordd sy'n diogelu preifatrwydd defnyddwyr ac sy'n cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r Comisiwn Gwybodaeth wrth ystyried y goblygiadau hyn.

Nid oes unrhyw ddull sicrwydd oedran sy'n gwbl gadarn yn erbyn dulliau osgoi gan blant. Bydd angen i wasanaethau cyfryngau cymdeithasol roi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith yn llawn, gan gynnwys cymryd camau ymarferol i fynd i'r afael â dulliau osgoi gan blant. Dylai gweithredu dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn yn gywir leihau'n sylweddol y tebygolrwydd y bydd pobl ifanc dan 16 oed yn defnyddio swyddogaethau neu wasanaethau cyfyngedig. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y bydd rhai plant yn ceisio osgoi gwiriadau oedran, gan gynnwys drwy ddefnyddio VPNs. Rydym wedi nodi rhai ffyrdd y gallai gwasanaethau liniaru'r risgiau o osgoi, fel riportio defnyddwyr dan oed. Byddwn yn monitro dulliau osgoi gan blant ac yn cyhoeddi adroddiad ar ddulliau osgoi o fewn deuddeg mis ar ôl i'r gwaharddiad ddod i rym.

Ni all dulliau cyfleu oedran presennol weithredu fel porth oedran. Gan fod y modelau hyn yn dibynnu ar weithgarwch defnyddwyr ar lwyfan am gyfnod i amcangyfrif oedran, nid ydynt yn addas fel y brif ffordd o atal defnyddwyr newydd dan 16 oed rhag cael mynediad at gyfrifon ar wasanaethau sydd o fewn cwmpas y gwaharddiad. Fodd bynnag, efallai y bydd gan fodelau cyfleu oedran rôl ategol i'w chwarae o hyd fel rhan o system sicrwydd oedran ehangach - er enghraifft, i helpu i ganfod pobl ifanc dan 16 oed sydd wedi osgoi gwiriad oedran effeithiol iawn.

Cyfrifoldeb gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yw sicrhau bod eu prosesau sicrwydd oedran newydd yn effeithiol iawn. Er ein bod yn disgwyl gweld rhagor o arloesi gan y diwydiant technoleg cyfan i gefnô'r gwaith o weithredu sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed, mae cwestiynau ynghylch llywodraethu, atebolrwydd ac effeithiolrwydd ymyriadau o'r fath y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn. Heddiw, rydym [hefyd wedi cyhoeddi ein hadroddiad statudol ar siopau apiau](#), sydd wedi'i ddylunio i hysbysu penderfyniad y llywodraeth ynghylch a ddylid cynnwys siopau apiau o fewn cwmpas y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Ni waeth beth fydd y rôl reoleiddio ar gyfer siopau apiau yn y dyfodol, neu weithredwyr eraill yn yr ecosystem, bydd angen i wasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ddangos bod eu proses sicrwydd oedran gyffredinol yn effeithiol iawn i gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaethau newydd.

Mae Ofcom nawr yn datblygu canllawiau drafft ar gyfer gwasanaethau fel rhan o'n paratodau ar gyfer gweithredu'r gwaharddiad arfaethedig ar gyfryngau cymdeithasol ar gyfer pobl ifanc dan 16 oed. Cyn gynted ag y bydd y cyfyngiadau disgwylidig yn cael eu cyflwyno i'r Senedd Brydeinig, byddwn yn ymgynghori ar ganllawiau ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed i helpu gwasanaethau i ddeall a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau yn y dyfodol. Gellir nodi dulliau ychwanegol sy'n gallu bod yn effeithiol iawn yn 16 oed fel rhan o'r ymgynghoriad.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Mehefin 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn o fesurau cyfyngu oedran gyda'r bwriad o gryfhau amddiffyniadau i blant ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys gwahardd darparwyr cyfryngau cymdeithasol rhag cynnig gwasanaethau i bobl ifanc dan 16 oed.¹ Maent hefyd yn cynnwys cyfyngu ar fynediad pobl ifanc dan 16 oed at nodweddion fel ffrydio byw a dieithriaid yn cyfathrebu â phlant, gan sicrhau bod y nodweddion hyn yn cael eu diffodd yn ddiofyn ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed.² Ym mis Gorffennaf 2026, cyhoeddodd y Llywodraeth ragor o fesurau ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed.³ Mae wedi nodi'n glir y bydd sicrwydd oedran effeithiol iawn yn hanfodol er mwyn rhoi'r mesurau hyn ar waith.⁴
- 1.2 O dan [Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023 \(y Ddeddf\)](#), mae eisoes yn ofynnol i rai gwasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr (gwasanaethau Rhan 3) ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i benderfynu a yw defnyddiwr yn blentyn ai peidio, h.y. a yw defnyddiwr dros 18 oed.⁵ Mae ein [Datganiad ar Amddiffyn Plant rhag Niwed Ar-lein ym mis Ebrill 2025](#) (Datganiad Ebrill 2025) a'n [Canllawiau ar Sicrwydd Oedran Effeithiol iawn ar gyfer gwasanaethau Rhan 3](#) (Canllawiau HEAA presennol) yn nodi ein dull gweithredu ar gyfer sicrwydd oedran effeithiol iawn.⁶ Ym mis Gorffennaf 2026, fe wnaethom gyhoeddi ein [Hadroddiad statudol ar ddefnyddio sicrwydd oedran](#) (adroddiad sicrwydd oedran), a oedd yn asesu sut mae gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio yn defnyddio sicrwydd oedran a pha mor effeithiol y bu at ddibenion cydymffurfio â'u dyletswyddau.⁷
- 1.3 Er mwyn helpu i lywio ystyriaeth y Senedd o'r rheoliadau drafft sydd ar y gweill, gofynnodd yr Ysgrifennydd Gwladol i Ofcom gynnal asesiad cyflym o sut beth yw sicrwydd oedran effeithiol iawn ar gyfer penderfynu a yw rhywun yn 16 oed neu'n hŷn.⁸
- 1.4 Mae'r asesiad rhagarweiniol hwn yn nodi rhestr nad yw'n gynhwysfawr o'r dulliau sicrwydd oedran rydym yn credu sy'n gallu bod yn effeithiol iawn ar gyfer penderfynu a yw rhywun yn 16 oed neu'n hŷn, gan gynnwys dulliau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.⁹ Rydym wedi

¹ Department of Science, Innovation and Technology (DSIT), 2026. [Social media to be banned for under-16s in landmark government move to give kids their childhood back](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

² DSIT, 2026. [Social media to be banned for under-16s in landmark government move to give kids their childhood back](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

³ DSIT, 2026. [New social media curfews and crackdown on addictive features to better protect 16- and 17-year-olds online](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

⁴ DSIT, 2026. [Growing up in the online world: progress statement \(June 2026\)](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

⁵ O dan [Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023](#) (y Ddeddf), Ofcom yw rheoleiddiwr diogelwch ar-lein y DU. Diffinnir plentyn yn adran 236(1) y Ddeddf fel "person dan 18 oed".

⁶ Ofcom, 2025. [April 2025 Statement: Protecting Children from harms online](#) (Datganiad Ebrill 2025). Ofcom, 2025. [Guidance on highly effective age assurance for Part 3 services](#). Mae gwasanaethau Rhan 3 yn wasanaethau chwilio a defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio. Mae canllawiau Rhan 3 yn dilyn yr un dull gweithredu â'n canllawiau ar gyfer gwasanaethau Rhan 5, sef darparwyr sy'n cyhoeddi neu'n dangos eu cynnwys pornograffig eu hunain.

⁷ Ofcom, 2026. [Report on the use of age assurance](#).

⁸ DSIT, 2026. [June progress statement: letter from DSIT Secretary of State to Ofcom Chair and CEO](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

⁹ Fel y'i diffinnir yn adran 230 y Ddeddf, mae sicrwydd oedran yn cynnwys dilysu oedran ac amcangyfrif oedran. Mae dilysu oedran yn golygu unrhyw fesur sydd wedi'i ddylunio i ddilysu union oedran defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio. Mae amcangyfrif oedran yn golygu unrhyw fesur sydd wedi'i ddylunio i amcangyfrif oedran neu ystod oedran defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio.

asesu'r dulliau hyn yn erbyn meini prawf cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch. Rydym hefyd wedi ystyried yr egwyddorion y dylai sicrwydd oedran weithio'n effeithiol i bob defnyddiwr (hygyrchedd) a'r gallu i ryngweithredu, yn ogystal â goblygiadau posibl o ran preifatrwydd a diogelu data. Mae'r asesiad hwn hefyd yn trafod risgiau osgoi a dadleoli, a'r rôl y gallai gweithredwyr eraill yn yr ecosystem ddigidol ei chwarae o ran cryfhau sicrwydd oedran.

- 1.5 Ochr yn ochr â chynigion Llywodraeth y DU, mae symudiad rhyngwladol ehangach tuag at gyflwyno cyfyngiadau ar sail oedran ar fynediad plant at gyfryngau cymdeithasol.¹⁰ Yn Awstralia - y wlad gyntaf i weithredu cyfyngiad o'r math hwn sy'n seiliedig ar oedran - mae'r rhwymedigaeth isafswm oedran ar gyfer cyfryngau cymdeithasol (SMMA) yn mynnu bod darparwyr llwyfannau cyfryngau cymdeithasol sydd â chyfyngiad oedran yn cymryd "camau rhesymol" i atal plant o Awstralia o dan 16 oed rhag cael cyfrifon.¹¹ Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwriadu defnyddio'r un model ar gyfer gwaharddiad ar gyfryngau cymdeithasol ag Awstralia, ond ei bod yn bwriadu "dysgu gwersi o brofiad Awstralia drwy gyflwyno mwy o fesurau sicrwydd oedran effeithiol iawn (HEAA) i gefnogi cydymffurfiaeth".¹² Bwriad hyn yw ei gwneud yn anoddach i blant osgoi mesurau diogelu.
- 1.6 Mae'r asesiad cyflym hwn wedi cael ei gynnal rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2026, gan ddefnyddio tystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd, ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid perthnasol gan gynnwys y rheini o'r diwydiant sicrwydd oedran, darparwyr gwasanaethau a rheoleiddwyr rhyngwladol, a'n profiad o reoleiddio mewn perthynas â'r dyletswyddau i ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn o dan y Ddeddf. Y bwriad yw helpu i lywio dadl seneddol ar y rheoliadau drafft, yn hytrach na gweithredu fel canllawiau i helpu gwasanaethau i roi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith i gydymffurfio â'r rheoliadau hyn. Rydym yn disgwyl ymgynghori ar ganllawiau drafft ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed yn ystod y misoedd nesaf, ar ôl cyflwyno'r rheoliadau drafft i'r Senedd.
- 1.7 Nid yw'r ddogfen hon yn asesu effeithiau defnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed er mwyn gweithredu gwaharddiad ar gyfryngau cymdeithasol a chyfyngiadau eraill posibl. Mater i'r Senedd yw ystyried effeithiau'r dyletswyddau newydd posibl eu hunain. Bydd Ofcom yn cyhoeddi asesiad effaith pan fyddwn yn ymgynghori ar ein canllawiau drafft ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed, gan ganolbwyntio ar y meysydd y gallwn arfer disgrisiwn yn eu cylch.
- 1.8 Mae'r asesiad wedi'i drefnu fel a ganlyn:

¹⁰ Mae nifer o awdurdodaethau wedi pasio, yn y broses i basio, neu wedi cyhoeddi eu bwriad i basio deddfwriaeth i atal plant rhag cael mynediad at rai gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol. Er enghraifft, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cynnig Deddf KIDS yr UE, sy'n sefydlu isafswm oedran wedi'i gysoni o 15 ar gyfer cyfrifon cyfryngau cymdeithasol annibynnol, ac mae nifer o wledydd Ewropeaidd, gan gynnwys Ffrainc, Gwlad Groeg ac Awstralia, hefyd yn mynd ar drywydd cyfyngiadau ar sail oedran ar gyfer mynediad pobl ifanc dan oed at wasanaethau ar-lein. I gael rhestr gyfredol o ddiweddariadau ar gyfyngiadau oedran cyfryngau cymdeithasol byd-eang gweler Jahangir, R. and Hendrix, J., 2026 Tracking Efforts to Restrict or Ban Teens from Social Media Across the Globe, Tech Policy Press, 23 Chwefror. [cyrchwyd 08 Medi 2026].

¹¹ Nid yw Adran 63D Deddf Diogelwch Ar-lein Awstralia yn rhagnodi pa 'gamau rhesymol' y mae'n rhaid i lwyfannau eu cymryd na gosod gofyniad sicrwydd oedran penodol, ond mae canllawiau eDdiogelwch yn egluro bod disgwyl i wasanaethau weithredu "rhyw fath o sicrwydd oedran", gweler Cofrestr Ffederal Llywodraeth Awstralia o Ddeddfwriaeth, 2024. Online Safety Amendment (Social Media Minimum Age) Act 2024 - Federal Register of Legislation. [cyrchwyd 26 Awst 2026].

¹² DSIT, 2026. Social media to be banned for under-16s in landmark government move to give kids their childhood back. [cyrchwyd 26 Awst 2026].

- Mae **Adran 2** yn egluro ein dull sicrwydd oedran effeithiol iawn presennol a sut y gellir ei ddefnyddio i osod cyfyngiadau ar bobl ifanc dan 16 oed.
- Mae **Adran 3** yn nodi'r dulliau sicrwydd oedran rydym yn credu sy'n gallu bod yn effeithiol iawn o ran penderfynu a yw rhywun yn 16 oed neu'n hŷn ac yn trafod a all y dulliau hyn weithio'n effeithiol i bob defnyddiwr. Mae hefyd yn trafod dulliau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.
- Mae **Adran 4** yn trafod sut y gellid cryfhau sicrwydd oedran, gan gynnwys risgiau osgoi a dadleoli a rôl gweithredwyr ehangach o ran cefnogi gweithredu.
- Mae **Adran 5** yn nodi'r camau nesaf, gan gynnwys sut mae Ofcom yn paratoi i weithredu'r cyfyngiadau oedran newydd disgwyledig.
- Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhestr o'r termau allweddol.

2. Rôl sicrwydd oedran effeithiol iawn o ran gweithredu'r cyfyngiadau oedran newydd

Ein dull sicrwydd oedran effeithiol iawn

- 2.1 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn i Ofcom asesu sut beth yw sicrwydd oedran effeithiol iawn ar gyfer penderfynu a yw rhywun dros 16 oed. Yn yr adran hon rydym yn egluro ein dull sicrwydd oedran effeithiol iawn presennol, yn ogystal â'r rôl y gallai ei chwarae o ran sicrhau cydymffurfiaid â'r cyfyngiadau oedran newydd disgwyledig.

- 2.2 Mae ein canllawiau HEAA presennol yn nodi meini prawf ac egwyddorion i helpu darparwyr i roi proses sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith.¹³ Fel y nodwyd gennym yn ein [Datganiad Sicrwydd Oedran a Mynediad Plant Ionawr 2025](#) (Datganiad Ionawr 2025), mae pob maen prawf yn bwysig ac mae angen i broses sicrwydd oedran gwasanaeth fodloni'r pedwar maen prawf er mwyn cael ei hystyried yn effeithiol iawn.¹⁴ Ochr yn ochr â chyflawni'r meini prawf, dylai gwasanaethau ystyried egwyddorion hygrychedd a'r gallu i ryngweithredu wrth roi proses sicrwydd oedran ar waith, yn ogystal â sicrhau bod eu proses yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data.

Meini prawf ac egwyddorion sicrwydd oedran effeithiol iawn

- 2.3 Rydym wedi cynhyrchu'r asesiad hwn gan ddilyn y meini prawf a'r dull seiliedig ar egwyddorion a nodir yn ein canllawiau HEAA presennol gan ein bod yn disgwyl i'r un dull fod yn berthnasol yn 16 oed. Mae Tablau 1 a 2 yn nodi'r meini prawf a'r egwyddorion hyn a'r hyn y maent yn ei olygu'n ymarferol. Byddwn yn datblygu ac yn ymgynghori ar ganllawiau drafft ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed, ar ôl i reoliadau drafft disgwyledig y llywodraeth gael eu cyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf.

Tabl 1: Meini prawf y mae'n rhaid i broses sicrwydd oedran effeithiol iawn eu bodloni

Maen Prawf	Disgrifiad	Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?
Cywirdeb technegol	I ba raddau y gall dull sicrwydd oedran bennu oedran defnyddiwr yn gywir o dan amodau labordy profi.	Mae hyn yn golygu sicrhau bod dulliau wedi cael eu gwerthuso yn erbyn metrigau priodol a'u bod yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd ar gyfer gwelliannau. Yn achos dulliau amcangyfrif oedran, dylid defnyddio dull oedran herio.
Cadernid	I ba raddau y gall dull sicrwydd oedran bennu oedran defnyddiwr yn gywir mewn cyd-destunau defnyddio gwirioneddol.	Mae hyn yn cynnwys cymryd camau i ystyried a lliniaru technegau osgoi sy'n benodol i bob dull. Er enghraifft, dylai unrhyw ddull sy'n golygu tynnu llun o ddefnyddiwr gynnwys technoleg canfod bywioldeb. ¹⁵
Dibynadwyedd	I ba raddau mae'r allbwn oedran o ddull sicrwydd oedran yn atgynrchadwy ac yn deillio o dystiolaeth ddibynadwy.	Mae hyn yn cynnwys cymryd camau priodol pan fydd dulliau sicrwydd oedran yn dibynnu ar ddeallusrwydd artiffisial neu ddysgu peirianyddol i sicrhau ei fod yn cael ei brofi, ei fonitro a'i asesu'n rheolaidd, yn ogystal â chamau i sicrhau bod unrhyw ddata y dibynnir arno fel rhan o'r broses sicrwydd oedran yn dod o ffynhonnell ddibynadwy.
Tegwch	I ba raddau y mae dull sicrwydd oedran yn osgoi neu'n lleihau rhagfarn a chanlyniadau gwahaniaethol.	Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau bod dulliau sy'n dibynnu ar ddeallusrwydd artiffisial neu ddysgu peirianyddol yn cael eu hyfforddi a'u profi ar ddata poblogaeth amrywiol a'u gwerthuso fel nad

¹³ Ofcom, 2025. [Guidance on highly effective age assurance for Part 3 services](#).

¹⁴ Ofcom, 2025. [January 2025 Age Assurance and Children's Access Statement](#) (Datganiad Ionawr 2025), tt.31-54.

¹⁵ Mae technoleg bywioldeb yn nodwedd sy'n cael ei defnyddio i sicrhau nad yw'r wyneb sy'n cael ei ddadansoddi yn llun, yn fideo nac yn unrhyw fath arall o gynrychiolaeth ffug.

Maen Prawf	Disgrifiad	Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?
		yw'r dull(iau) yn cynhyrchu rhagfarn sylweddol na chanlyniadau gwahaniaethol.

Tabl 2: Egwyddorion y dylid eu hystyried wrth ddylunio proses sicrwydd oedran effeithiol iawn

Egwyddor	Disgrifiad	Beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol?
Hygyrchedd	Gallu dull neu broses i weithio i bob defnyddiwr.	Mae hyn yn cynnwys ystyried yr effaith bosibl y gallai'r dull(iau) sicrwydd oedran a ddewisir ei chael ar ddefnyddwyr sydd â nodweddion gwahanol; yr amrywiaeth o ddulliau sicrwydd oedran y gallai defnyddiwr ddewis ohonynt; a thaith y defnyddiwr drwy'r broses sicrwydd oedran i fod yn hygyrch i bobl sydd ag ystod eang o alluoedd corfforol a deallusol.
Y gallu i ryngweithredu	Gallu systemau technolegol i gyfathrebu â'i gilydd gan ddefnyddio fformatau cyffredin a safonol.	Gall hyn gynnwys ailddefnyddio canlyniad gwiriad oedran ar draws nifer o wasanaethau er mwyn caniatáu i wahanol ddarparwyr dulliau sicrwydd oedran rannu'r wybodaeth, ar yr amod bod hyn yn cael ei wneud yn unol â chyfreithiau diogelu data. Mae'r gallu i ryngweithredu yn cynnig budd posibl i brofiad y defnyddiwr, gan ei fod yn cyfyngu ar faint o wybodaeth y mae angen i ddefnyddwyr ei darparu wrth gael mynediad at wasanaeth newydd os ydynt eisoes wedi profi eu hoedran mewn mannau eraill. Gallai hyn leihau'r amser a'r ymdrech sydd eu hangen ar ddefnyddwyr i ddeall gwahanol brosesau sicrwydd oedran a chyfrannu atynt.

Diogelu data a phreifatrwydd

- 2.4 Mae ein canllawiau HEAA presennol hefyd yn nodi sut gall darparwyr ystyried diogelu preifatrwydd defnyddwyr wrth roi sicrwydd oedran ar waith.¹⁶ Mae pob dull sicrwydd oedran yn cynnwys prosesu data personol ac felly maent yn rhwym wrth ofynion diogelu data'r DU. Fel y nodwyd yn ein canllawiau presennol a'n [Datganiad ar y Cyd gyda'r Comisiwn Gwybodaeth \(ICO\)](#), rhaid i wasanaethau sicrhau bod unrhyw ddulliau sicrwydd oedran maen nhw'n eu defnyddio yn angenrheidiol, yn effeithiol ac yn gymesur, yn cydymffurfio ag egwyddorion Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR), ac nad ydyn nhw'n creu risgiau i hawliau a rhyddid defnyddwyr sy'n drech na'u manteision.¹⁷ Bydd yr un egwyddorion yn berthnasol i unrhyw brosesau sicrwydd oedran a gyflwynir at ddibenion cyfyngiadau oedran newydd.

Ystyriaethau diogelu data ar gyfer gweithredu cyfyngiadau oedran yn 16 oed

- 2.5 Bydd defnyddio dulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn ar gyfer gweithredu'r cyfyngiadau oedran sydd ar y gweill yn golygu prosesu data personol ac felly'n codi amrywiaeth o ystyriaethau diogelu data. Mae'r ystyriaethau a nodir yn y Datganiad ar y Cyd gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn parhau i adlewyrchu safbwynt presennol Swyddfa'r

¹⁶ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, tt.22-24.

¹⁷ Mae rhagor o wybodaeth am rwymedigaethau diogelu data gwasanaethau wrth weithredu sicrwydd oedran ar gael yn [A Joint Statement by Ofcom and the Information Commissioner's Office](#) 2026, t.8. Gweler hefyd ICO. [Age Assurance Opinion Piece](#). [cyrchwyd 27 Hydref 2026].

Comisiynydd Gwybodaeth ar ddefnyddio sicrwydd oedran i atal plant o dan yr isafswm oed rhag cael mynediad at wasanaeth.

- 2.6 Ni waeth pa fecanwaith sicrwydd oedran y mae darparwyr gwasanaeth yn ei ddewis ac a ydynt yn prosesu gwybodaeth bersonol plentyn neu oedolyn, rhaid i wasanaethau ddilyn yr egwyddorion diogelu data.¹⁸ Rhaid i unrhyw ddata personol sy'n cael ei brosesu gan wasanaethau wrth roi sicrwydd oedran ar waith gael ei gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni diben y prosesu. Rhaid i ddarparwyr sicrhau bod dulliau sicrwydd oedran yn cydbwysu lefel y sicrwydd sydd ei angen am oedran defnyddiwr gydag egwyddorion rheidrwydd a lleihau data. O ystyried y byddai'r rheoliadau newydd posibl yn berthnasol i grwpiau oedran penodol o blant, byddai angen i'r gwasanaeth gael digon o sicrwydd ynghylch oedran defnyddiwr i brosesu ei ddata'n gyfreithlon a defnyddio'r mesurau diogelu priodol.¹⁹
- 2.7 Mae [Barn ar Sicrwydd Oedran](#) Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn egluro sut gall gwasanaethau ddefnyddio technoleg sicrwydd oedran yn unol â chyfraith diogelu data mewn ffordd gymesur sy'n seiliedig ar risg.
- 2.8 Byddai angen ystyried ymhellach sut y dylai darparwyr gwasanaethau ddelio â chyfrifon presennol sy'n eiddo i ddefnyddwyr dan 16 oed mewn ffordd sy'n bodloni eu rhwymedigaethau diogelu data.²⁰ Mae hyn yn cynnwys y canlynol:
- a) A oes sail gyfreithlon ddilys dros brosesu data personol defnyddwyr dan oed er mwyn cynnal eu cyfrif;²¹
 - b) Pan fydd gwasanaethau'n cadw data cyfrif presennol, sut dylid trin y data hwnnw, gan gynnwys ei atal rhag cael ei ddefnyddio at ddibenion eilaidd, ei ddileu os na fydd defnyddiwr yn ailalluogi ei gyfrif, a bod yn dryloyw gyda defnyddwyr ynghylch sut mae'n cael ei drin; a
 - c) Sut gall defnyddwyr dan oed arfer eu hawliau gwrthrych data mewn perthynas ag unrhyw ddata a gedwir.
- 2.9 Un gofyniad allweddol o ran tryloywder o dan GDPR y DU yw bod gan unigolion yr hawl i gael gwybodaeth ynghylch casglu a defnyddio eu data personol. Canfu ymchwil ddiweddar gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod llai na hanner y plant (45%) yn dweud eu bod yn deall beth sy'n digwydd i'w gwybodaeth bersonol pan fyddant yn ei rhannu ar gêm, ap neu wefan.²² Rhaid i ddarparwyr gwasanaeth roi gwybodaeth am breifatrwydd i ddefnyddwyr gan gynnwys pwrpas prosesu eu data personol, cyfnodau cadw data a gyda phwy y bydd data personol yn cael ei rannu. Rhaid iddynt hefyd ddarparu'r wybodaeth

¹⁸ Mae GDPR y DU yn nodi saith egwyddor allweddol: cyfreithlondeb, tegwch a thryloywder; cyfyngiadau pwrpas; lleihau data; cywirdeb; cyfyngiadau storio; uniondeb a chyfrinachedd, ac atebolrwydd. ICO. [A Guide to the data protection principles](#). [cyrchwyd 30 Medi 2026].

¹⁹ ICO. [Age Assurance for the Children's Code](#), 6.1.5 Data Minimisation. [cyrchwyd 26 Awst 2026].

²⁰ Yn Awstralia, cafodd gwasanaethau gyfarwyddyd i dynnu cyfrifon sy'n perthyn i ddefnyddwyr o dan 16 oed ond gallai rhai llwyfannau ddewis analluogi cyfrifon fel y gellid eu hailalluogi pan fydd y defnyddiwr yn 16 oed. Gweler y Comisiynydd eDdiogelwch. [How do the social media age restrictions affect me?](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

²¹ Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn datgan na ddylai darparwyr gadw data personol am fwy o amser nag sydd ei angen arnynt, y dylent adolygu'r data sy'n cael ei gadw o bryd i'w gilydd, ac ystyried unrhyw heriau o ran cadw data. Gweler [Principle \(e\): Storage Limitation](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

²² ICO, 2026. [Children's and Parents' Attitudes on Information Rights](#), p.20.

mewn ffordd sy'n gryno, yn dryloyw, yn ddealladwy, yn hawdd cael gafael arni, mewn iaith glir a syml.²³

Rôl sicrwydd oedran effeithiol iawn o ran gweithredu'r cyfyngiadau oedran newydd

Beth yw'r achosion defnydd disgwyledig ar gyfer sicrwydd oedran effeithiol iawn?

- 2.10 Er mwyn cydymffurfio â'r cyfyngiadau oedran newydd, rydym yn disgwyl y bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau o fewn y cwmpas ddefnyddio dulliau sicrhau oedran effeithiol iawn i benderfynu ar y canlynol:
- a yw defnyddiwr yn 16 oed neu'n hŷn i sicrhau bod y cyfyngiadau perthnasol yn cael eu cymhwyso i bobl ifanc dan 16 oed; a/neu
 - a yw defnyddiwr yn 16 i 17 oed, er mwyn sicrhau bod gosodiadau diofyn penodol yn cael eu cymhwyso i'r defnyddwyr hynny.
- 2.11 Efallai y bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau o fewn y cwmpas hefyd ddefnyddio sicrwydd oedran effeithiol iawn i benderfynu a yw defnyddiwr yn 18 oed neu'n hŷn er mwyn cydymffurfio â'r dyletswyddau diogelwch plant presennol.
- 2.12 Bydd y dulliau a'r prosesau a fyddai'n briodol ar gyfer pennu oedran neu ystod oedran defnyddiwr yn dibynnu ar y cyfyngiadau oedran y mae angen i ddarparwr gwasanaeth gydymffurfio â nhw. Pan fydd oedolion a phlant ar wasanaeth, rydym yn disgwyl y gallai gwasanaeth gynnig amrywiaeth o ddulliau sicrwydd oedran sy'n gallu bod yn effeithiol iawn yn 18 oed yn ogystal ag 16 oed, er mwyn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr, yn dibynnu ar yr achos defnydd.

A fydd angen i bob defnyddiwr presennol gwblhau gwiriad sicrwydd oedran effeithiol iawn?

- 2.13 Ni fydd angen i bob defnyddiwr presennol gwblhau gwiriad oedran effeithiol iawn ar unwaith i benderfynu a yw'n 16 oed neu'n hŷn. Efallai fod gan ddarparwyr wybodaeth yn barod am ddefnyddwyr presennol y gellid ei defnyddio i helpu i bennu oedran neu ystod oedran rhywun.²⁴ Gallai defnyddio gwybodaeth ddibynadwy am oedran sydd gan wasanaethau eisoes am ddefnyddiwr helpu i leihau ffrithiant a diogelu preifatrwydd defnyddwyr, drwy leihau nifer yr archwiliadau oedran newydd y mae angen eu cwblhau.
- 2.14 Er mwyn penderfynu pa ddefnyddwyr na fydd angen iddynt gwblhau gwiriad sicrwydd oedran effeithiol iawn newydd ar unwaith, gallai gwasanaethau ddefnyddio amrywiaeth o wybodaeth sy'n ymwneud â chyfrif defnyddiwr presennol.²⁵ Mae enghreifftiau'n cynnwys:
- **Canlyniadau gwiriad oedran effeithiol iawn** a gynhaliwyd yn flaenorol, er enghraifft i benderfynu a yw defnyddiwr penodol dros 18 oed. Fel y nodir yn ein canllawiau

²³ ICO. [Right to be informed](#). [cyrchwyd 29 Medi 2026].

²⁴ DCMS, 2026. [Fact sheet: New rules to protect children online - GOV.UK](#). [cyrchwyd 08 Medi 2026].

²⁵ Mae yna ystyriaethau diogelu data penodol ar gyfer gwasanaethau wrth ailddefnyddio data personol a rhaid i wasanaethau sicrhau bod unrhyw ddata personol yn cael ei ailddefnyddio yn unol â'u rhwymedigaethau diogelu data o ran cydnawsedd ac ailddefnyddio gwybodaeth personol. Gweler canllawiau diweddaraf Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gyfyngiad pwrpas: [Principle \(b\): Purpose limitation | ICO](#). [cyrchwyd 29 Medi 2026].

HEAA presennol, dylai darparwyr gwasanaethau ystyried a oes angen cynnal gwiriadau oedran dro ar ôl tro i sicrhau cadernid eu proses sicrwydd oedran.²⁶

- **Am ba mor hir mae cyfrif defnyddiwr wedi bodoli (deiliadaeth cyfrif)**, ar yr amod bod yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel rhan o broses sicrwydd oedran effeithiol iawn. Yn benodol, byddai angen i'r gwasanaeth fod yn fodlon bod y cyfrif wedi bod yn eiddo i'r un defnyddiwr drwy gydol ei ddeiliadaeth ac nad oes ganddo unrhyw wybodaeth sy'n dangos newid perchnogaeth.

2.15 Rydym yn bwriadu darparu rhagor o wybodaeth i wasanaethau ynghylch sut gellir defnyddio gwybodaeth bresennol fel deiliadaeth cyfrif, gan gynnwys ystyriaethau ynghylch am ba hyd y mae angen i gyfrif fod wedi bodoli mewn perthynas â deiliadaeth cyfrif a mesurau eraill i sicrhau cadernid, fel rhan o'n hymgyngoriad ar ein canllawiau drafft.

²⁶ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.16.

3. Asesu'r dulliau sicrwydd oedran sydd ar gael


Pa ddulliau sicrwydd oedran ydyn ni wedi'u hasesu?

- 3.1 Mae ein canllawiau HEAA presennol yn nodi rhestr nad yw'n gynhwysfawr o ddulliau sicrwydd oedran sydd, yn ein barn ni, yn gallu bod yn effeithiol iawn wrth benderfynu'n gywir a yw rhywun yn 18 oed neu'n hŷn.²⁷
- 3.2 Fe wnaethom ddefnyddio'r dulliau yn ein canllawiau presennol fel man cychwyn ar gyfer ein hasesiad o sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed. Rydym wedi asesu pob dull yn erbyn meini prawf cywirdeb technegol, cadernid, dibynadwyedd a thegwch, ac wedi ystyried egwyddorion hygrychedd a'r gallu i ryngweithredu, a sut y gallai pob dull effeithio ar breifatrwydd defnyddwyr.
- 3.3 Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, mae ein hasesiad rhagarweiniol yn awgrymu bod pedwar dull sy'n gallu bod yn effeithiol iawn wrth benderfynu'n gywir a yw rhywun yn 16 oed neu'n hŷn. Mae ein hasesiad hefyd yn trafod tri dull ychwanegol sy'n gallu bod yn effeithiol iawn yn 18 oed, ond nid yn 16 oed. Gellid cynnig y dulliau hyn i oedolion fel rhan o broses sicrwydd oedran gwasanaeth, fel os yw defnyddiwr yn 18 oed neu'n hŷn, mae'n dilyn y byddent hefyd dros 16 oed. Rydym hefyd yn nodi'r dulliau nad ydynt yn gallu bod yn effeithiol iawn ar gyfer unrhyw oedran.
- 3.4 Rydym hefyd wedi ystyried dulliau newydd sy'n dod i'r amlwg i gefnogi sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed yn y dyfodol, gan gydnabod datblygiadau posibl yn y farchnad ac effaith newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth fel y Ddeddf Data (Defnyddio a Mynediad).²⁸
- 3.5 Mae Ffigur 1 yn rhoi crynodeb o'n hasesiad o ddulliau sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 ac 18 oed. I weld ein safbwynt rhagarweiniol ar rôl cyfleu oedran wrth weithredu'r cyfyngiadau oedran newydd, gweler paragraffau 3.64 i 3.68.

²⁷ Ofcom, 2025. [Guidance on highly effective age assurance for Part 3 services](#), tt.8-9.

²⁸ Mae Adran 45 Deddf Data (Defnyddio a Mynediad) 2025 yn cynnwys pŵer y cyfeirir ato fel y "porth gwybodaeth", sy'n caniatáu i awdurdodau cyhoeddus rannu gwybodaeth â darparwyr gwasanaethau dilysu digidol, ar yr amod bod gwybodaeth yn bodloni darpariaethau penodol. Office for Digital Identities and Attributes (OfDIA), 2026. [The information gateway: enabling secure sharing of information held by public authorities with trusted digital verification services – Enabling digital identity](#). [cyrchwyd 28 Medi 2026].

Ffigur 1: Dulliau sicrwydd oedran rydym wedi'u hasesu



Pa fathau o ddulliau sicrwydd oedran sy'n gallu bod yn effeithiol iawn wrth benderfynu a yw defnyddiwr yn 16 oed neu'n hŷn?

Paru ID llun

- 3.6 **Sut mae'r dull yn gweithio:** Mae paru ID llun yn gweithio drwy wirio'r wybodaeth berthnasol ar ddogfen ID llun a chymharu'r ffotograff ar y ddogfen â llun o'r defnyddiwr a dynnwyd yn ystod y gwiriad oedran. Mae hyn yn helpu i wirio mai'r defnyddiwr sy'n cwblhau'r gwiriad sy'n berchen ar yr ID llun.
- 3.7 **Risgiau osgoi a mesurau lliniaru:** Mae dulliau osgoi posibl ar gyfer paru ID llun yn cynnwys defnyddio dogfennau adnabod wedi'u benthyg neu eu dwyn, dogfennau ffug neu synthetig, a sefyllfaoedd lle mae rhiant yn darparu manylion adnabod yn fwriadol i blentyn eu defnyddio. Gellir lliniaru'r technegau osgoi hyn drwy wirio dilysrwydd IDs a pharu hunluniau â dull canfod bywioldeb.²⁹
- 3.8 **Hygyrchedd:** Mae paru ID llun yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr gael mynediad annibynnol at ddogfen hunaniaeth gydnabyddedig gyda llun, ac iddynt allu cwblhau dogfen a phroses cofnodi delwedd wyneb gan ddefnyddio dyfais addas.³⁰ Rydym yn trafod defnyddio a hygyrchedd IDs llun ym mharagraffau 3.32 i 3.39.

²⁹ Ofcom, 2025. [January 2025 Statement](#), paragraff 3.83,

³⁰ Mae OfDIA wedi cynhyrchu canllawiau ar sut gall gwasanaeth gyrraedd lefel benodol o hyder wrth wirio hunaniaeth rhywun, gan gynnwys pryd i ddefnyddio ffynhonnell awdurdodol. Gweler OfDIA, 2026. [How to check someone's identity](#). [cyrchwyd 08 Hydref 2026].

- 3.9 **Ystyriaethau preifatrwydd:** Mae'r dull hwn yn cynnwys prosesu priodoleddau adnabod fel dyddiad geni ac mae'n bosibl y bydd yn golygu prosesu data biometrig categori arbennig i ymgymryd â'r broses gyfatebu.³¹ Bydd yr effeithiau ar breifatrwydd yn dibynnu ar ffactorau gan gynnwys a yw data'n cael ei gadw ai peidio, faint o ddata personol sydd ar gael ar y dynodwr, ac a yw hyn yn cael ei wneud drwy ddarparwr trydydd parti. Er enghraifft, pan fydd darparwr gwasanaeth yn dewis defnyddio darparwr sicrwydd oedran trydydd parti, gallai'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu yn ystod y gwiriad oedran fod wedi'i chyfyngu i gadarnhau a yw defnyddiwr yn hŷn neu'n iau nag oedran penodol (ymateb 'ie' neu 'na'). Gallai hyn gyfyngu ar faint o wybodaeth adnabod arall sy'n cael ei rhannu am y defnyddiwr. Nid yw ystyriaethau preifatrwydd yn rhwystr rhag defnyddio'r dull hwn, cyn belled â bod cyfraith diogelu data a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael eu dilyn.

Gwasanaethau hunaniaeth ddigidol

- 3.10 **Sut mae'r dull yn gweithio:** Mae gwasanaethau hunaniaeth ddigidol yn galluogi pobl i brofi'n ddigidol pwy ydyn nhw (hunaniaeth) neu wybodaeth amdanyh nhw eu hunain (priodoleddau). Mae 275 o gwmnïau'n darparu cynnyrch a gwasanaethau hunaniaeth ddigidol yn y DU ar hyn o bryd.³² Gellir defnyddio hunaniaethau neu briodoleddau digidol y gellir eu haildefnyddio sawl gwaith ar gyfer gwahanol ryngweithiadau a thrafodion, er enghraifft, drwy ddefnyddio waledi hunaniaeth ddigidol sy'n galluogi defnyddwyr i storio priodoleddau, fel oedran, yn ddiogel mewn fformat digidol. Ar ôl dilysu hunaniaeth neu briodoledd, gall defnyddiwr ddewis rhannu priodoleddau fel ei oedran neu ystod oedran â'r gwasanaeth sy'n gofyn amdano. O fis Medi 2026 ymlaen, gellir derbyn prawf oedran digidol cymeradwy yn gyfreithiol wrth brynu alcohol yng Nghymru a Lloegr.³³
- 3.11 Mae Fframwaith Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Dilysu Digidol y DU, sy'n cael ei oruchwylio gan y Swyddfa Hunaniaethau a Phriodoleddau Digidol (OfDIA), yn nodi'r rheolau a'r safonau ar gyfer darparu gwasanaethau dilysu digidol dibynadwy ledled y DU ac yn cadw rhestr o ddarparwyr dibynadwy.³⁴ Gallai defnyddio gwasanaeth hunaniaeth ddigidol sydd wedi'i ardystio yn erbyn y fframwaith ymddiriedolaeth helpu darparwr gwasanaeth i ddangos ei fod wedi bodloni'r pedwar maen prawf sydd eu hangen er mwyn i ddull gael ei ystyried yn effeithiol iawn.³⁵ Mae OfDIA wedi ymrwymo i archwilio'r rôl y gallai darparwyr gwasanaethau dilysu digidol dibynadwy ei chwarae o ran cefnogi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar gyfer gwaharddiad ar gyfyngau cymdeithasol i rai dan 16 oed.³⁶
- 3.12 **Risgiau osgoi a mesurau lliniaru:** Bydd dibynadwyedd y dull hwn yn dibynnu ar y broses sylfaenol a ddefnyddir i gadarnhau oedran defnyddiwr. Mae risg hefyd y bydd plentyn yn defnyddio hunaniaeth ddigidol rhywun arall i gwblhau gwiriad. Gallai gwasanaethau lliniaru hyn drwy ddefnyddio gwiriadau biometreg neu ddilysu eilaidd.

³¹ Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cynhyrchu [canllawiau data biometrig](#) ar brosesu'r math penodol hwn o briodoledd [cyrchwyd 1 Hydref 2026].

³² OfDIA, 2026. [Digital Identity Sectoral Analysis Report 2026](#). [cyrchwyd 08 Hydref 2026].

³³ OfDIA, 2026. [New rules pave the way for businesses to adopt digital proof of age for alcohol sales - GOV.UK](#). [accessed 8 October 2026].

³⁴ OfDIA, 2024. [Digital verification services register](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

³⁵ Mae ein canllawiau HEAA presennol yn egluro nad yw defnyddio gwasanaeth sydd wedi'i ardystio yn erbyn y Fframwaith Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Dilysu Digidol (neu unrhyw safon neu gynllun arall) yn ffordd awtomatig o gydymffurfio â rheoliadau presennol ac rydym yn disgwyl y bydd hyn yn wir ar gyfer canllawiau yn y dyfodol. Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.12.

³⁶ OfDIA, 2026. [Office for Digital Identities and Attributes annual report on the operation of Part 2 of Data \(Use and Access\) Act 2025](#), t.26. [cyrchwyd 27 Awst 2026].

- 3.13 **Hygyrchedd:** I brofi hunaniaeth neu briodoleddau penodol unigolyn, mae'n debygol y bydd angen i wasanaethau hunaniaeth ddigidol ddilysu oedran defnyddiwr drwy wirio gwybodaeth o ffynhonnell awdurdodol. O ganlyniad, nid yw gwasanaethau hunaniaeth ddigidol ar hyn o bryd yn debygol o fod ar gael i bobl ifanc 16 a 17 oed nad oes ganddynt fynediad at ID llun.³⁷ Fodd bynnag, i ddefnyddwyr sydd â dogfen ID llun, bydd defnyddio gwasanaeth hunaniaeth ddigidol yn lleihau'r angen i gael mynediad ato dro ar ôl tro i brofi eu hoedran, gan leihau ffrithiant i ddefnyddwyr.
- 3.14 **Ystyriaethau preifatrwydd:** Mae gwasanaeth hunaniaeth ddigidol yn rhoi'r opsiwn i ddefnyddwyr ddewis pa briodoleddau i'w rhannu â gwasanaeth cysylltiedig sy'n cwblhau'r gwiriad oedran. Er enghraifft, gallai defnyddiwr rannu dim ond ei oedran neu ei ystod oedran â gwasanaeth, heb y data personol a biometreg cysylltiedig sydd fel arfer wedi'i gynnwys mewn dogfen ID llun. Pan mai dim ond ystod oedran, fel '16 ac uwch', sy'n cael ei rhannu, mae hyn yn cyfyngu ar faint o wybodaeth mae defnyddwyr yn ei rhannu â'r ddarparwr gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio. Fodd bynnag, ni waeth faint o wybodaeth sy'n cael ei rhannu, bydd yn rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gyflawni eu rhwymedigaethau diogelu data.

Gwybodaeth bancio

- 3.15 **Sut mae'r dull yn gweithio:** Mae gwybodaeth bancio yn gweithio drwy gael mynediad at y wybodaeth sydd gan fanc neu sefydliad ariannol arall ar gofnod ynghylch oedran defnyddiwr, gyda chaniatâd y defnyddiwr. Gall hyn olygu bod y defnyddiwr yn cael gafael ar yr wybodaeth gan ei fanc neu ei sefydliad ariannol ei hun neu drwy ddarparwr sicrwydd oedran trydydd parti. Gellir rhannu cadarnhad o oedran, ystod oedran neu ddyddiad geni'r defnyddiwr gyda'r gwasanaeth sy'n gofyn amdano.³⁸
- 3.16 **Risgiau osgoi a mesurau lliniaru:** Oherwydd y seilwaith diogelwch a'r rheoliadau ariannol presennol, gellir ystyried bod dulliau bancio yn ddulliau cadarn yn erbyn ymdrechion i osgoi, fodd bynnag, byddai angen i ddarparwyr gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio sicrhau bod y dull yn bodloni'r maen prawf cadernid o hyd.³⁹
- 3.17 **Hygyrchedd:** Fel yn achos gwasanaethau hunaniaeth ddigidol, fel arfer byddai angen i ddefnyddwyr ddarparu dogfen adnabod neu dystiolaeth ddibynadwy arall o hunaniaeth i agor cyfrif, ond ar ôl ei agor, gallai hyn ddarparu profiad mwy cyfleus i ddefnyddwyr. Yn ôl data o Arolwg Lles Ariannol Plant a Phobl Ifanc 2022 y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, roedd gan tua 90% o bobl ifanc 16 i 17 oed yn y DU gyfrif banc.⁴⁰

³⁷ Efallai fod yna ffyrdd eraill i wasanaeth hunaniaeth ddigidol ddilysu defnyddiwr. Gweler OfDIA, 2026. How to check someone's identity.

³⁸ Mae'r dull hwn yn wahanol i'r ateb bancio agored a nodir gennym yn ein canllawiau HEAA presennol. Er y gellid defnyddio atebion bancio agored mewn theori i benderfynu a yw defnyddiwr yn 16 oed neu'n hŷn, mae ei ddefnydd ymarferol yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd bod y dull yn dibynnu ar gyfrifon banc sy'n benodol i oedran, nad ydynt yn cael eu cynnig yn eang yn 16 oed a hŷn. Felly, rydym wedi mabwysiadu diffiniad ehangach i roi cyfrif am ffyrdd eraill o rannu gwybodaeth. Ni ellir defnyddio dilysu oedran drwy ddulliau talu ar-lein nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddiwr fod dros 16 oed fel dull sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed. Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.8.

³⁹ Age Verification Provides Association (AVPA), 2026. [Age Assurance at 16 White Paper](#), tt.26-27.

⁴⁰ Money and Pensions Service (MaPS) Children and Young People's Financial Wellbeing Survey, 2022. Amcangyfrif yn seiliedig ar oddeutu 800 o gyfweiliadau gyda phobl ifanc 16 i 17 oed yn y DU ac mae'n cynnwys cyfrifon cyfredol a chyfrifon cynilo, yn ogystal â'r rheini a oedd yn gwybod pa fath o gyfrif oedd ganddynt. Cafodd y ffigur ei ddarparu a'i ddilysu gan MaPS i'w gyhoeddi yn yr asesiad hwn.

- 3.18 Bydd gallu'r defnyddwyr hyn i gwblhau gwiriad sicrwydd oedran seiliedig ar fancio hefyd yn dibynnu ar gyrhaeddiad y banciau sy'n cyfranogi mewn neu'n datblygu atebion sicrwydd oedran seiliedig ar fancio ar adeg cyflwyno unrhyw reoliadau. Rydym yn ymwybodol o rai atebion cam cynnar sy'n cynnwys banciau mawr a allai gynnig gwiriadau sicrwydd oedran erbyn i unrhyw reoliadau ddod i rym.⁴¹
- 3.19 **Ystyriaethau preifatrwydd:** Fel yn achos dulliau eraill sy'n cael eu cynnig gan drydydd partïon, mae'n bosibl cyfyngu ar yr wybodaeth sy'n cael ei rhannu i gadarnhau a yw defnyddiwr dros oedran penodol, gan gyfyngu ar faint o wybodaeth bersonol sy'n cael ei rhannu â'r gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio. Byddai'r goblygiadau preifatrwydd yn dibynnu ar sut mae'r dull yn cael ei weithredu.

Amcangyfrif oedran yr wyneb

- 3.20 **Sut mae'r dull yn gweithio:** Mae amcangyfrif oedran yr wyneb yn gweithio drwy ddadansoddi nodweddion wyneb defnyddiwr i amcangyfrif ei oedran neu ystod oedran. Gall hyn fod yn fwy hygyrch na dulliau eraill oherwydd gall defnyddwyr fel arfer gwblhau'r broses heb orfod darparu dogfen ID llun neu rannu gwybodaeth bersonol arall.
- 3.21 **Cywirdeb technegol:** Mae canlyniadau profion cywirdeb a gynhaliwyd gan Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Thechnoleg yr Unol Daleithiau (NIST) yn dangos bod perfformiad amcangyfrif oedran yr wyneb ar gyfer y grŵp oedran 13 i 17 yn debyg i'w berfformiad ar gyfer oedolion.⁴² Mae gwall absoliwt cymedrig (MAE) yn fesur cyffredin o asesu perfformiad algorithm amcangyfrif oedran yr wyneb wrth amcangyfrif oedrannau neu ystodau oedran penodol.⁴³ Gan ddefnyddio data NIST, mae'n bosibl cymharu'r MAE ar gyfer modelau a gynlluniwyd i bennu oedran sy'n ofynnol gan borth oedran 16 a 18 oed. Mae canlyniadau NIST yn dangos bod MAE, ar gyfer y rhan fwyaf o algorithmau, yn cynyddu gydag oedran, gyda pherfformiad tebyg ar draws y ddau grŵp oedran allweddol ar gyfer porth oedran 16 a 18 oed.
- 3.22 Ar gyfer y grŵp oedran 13 i 17, yr MAE isaf yw 1.77 blynedd. Mae gan bedwar ar bymtheg o'r 50 algorithm a brofwyd MAE o dan 3 blynedd ar gyfer y grŵp oedran hwn. Ar gyfer y grŵp oedran 18 i 25, yr MAE isaf yw 2.39 blynedd. Mae gan naw o'r 50 algorithm a brofwyd MAE o dan 3 blynedd ar gyfer y grŵp oedran hwn.⁴⁴ Mae hyn yn golygu y gall rhai technolegau amcangyfrif oedran yr wyneb bennu oedran defnyddwyr yn gywir dros ac o dan 16 oed gyda ffin cyfeiliornad o ychydig flynyddoedd.
- 3.23 Mae'r ffin cyfeiliornad ar gyfer amcangyfrif oedran yr wyneb yn dod yn fwy arwyddocaol ar gyfer yr oedrannau agosaf at y porth oedran targed (16 yn yr achos hwn). Er enghraifft, os

⁴¹ O'n hymgysylltu ag un darparwr [3<] sy'n gweithio gyda nifer o fanciau'r stryd fawr ac un banc [3<] sy'n datblygu ateb perchnogol.

⁴² Mae nifer o sefydliadau'n cynnal profion ar amcangyfrif oedran yr wyneb, a nifer o fetrigau y gellir eu hasesu. Y sefydliad mwyaf adnabyddus sy'n cynnal profion yw'r Sefydliad Safonau a Thechnoleg Cenedlaethol (NIST), un o asiantaethau Adran Masnach yr Unol Daleithiau. Gwerthusiad Technoleg Dadansoddi Wyneb NIST: Mae rhaglen agored Amcangyfrif a Dilysu Oedran yn caniatáu i gwmnïau sy'n darparu cynnyrch amcangyfrif oedran yr wyneb gyflwyno eu halgorithmau i'w profi, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi mewn adroddiadau sydd ar gael ar wefan NIST. NIST, 2024. [Face Analysis Technology Evaluation: Age Estimation and Verification](#). [cyrchwyd 07 Medi 2026].

⁴³ Gwall absoliwt cymedrig yw gwerth canolog y gwall absoliwt. Mae'n disgrifio'r anghysondeb cyfartalog rhwng oedran y defnyddiwr a bennwyd gan dechnoleg a'i oedran gwirioneddol, gan anwybyddu a yw'n oramcangyfrif neu'n danamcangyfrif.

⁴⁴ NIST, 2024. Face Analysis Technology Evaluation.

yw'r algorithm amcangyfrif oedran yr wyneb yn gywir o fewn dwy flynedd i blant 15 oed, gallai amcangyfrif eu bod yn 17 oed. Gallai hyn arwain at nifer sylweddol o blant dan 16 oed yn cael mynediad at wasanaethau neu swyddogaethau cyfyngedig. Gallai hefyd arwain at wrthod mynediad i berson ifanc 17 oed os amcangyfrifir ei fod yn 15 oed, oni bai ei fod yn defnyddio dull arall. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o effeithio ar ddefnyddwyr sy'n agos at yr oedran targed yn unig, felly amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o oedolion sy'n cael cynnig y dull hwn yn amlwg dros 16 oed.


- 3.24 Er mwyn rhoi cyfrif am y ffin cyfeiliornad mewn algorithm amcangyfrif oedran yr wyneb, dylai gwasanaethau roi 'oedran herio' ar waith (a elwir weithiau'n 'oedran byffer'). Mae dull oedran herio yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn cyd-destun all-lein wrth werthu cynnyrch â chyfyngiad oedran fel alcohol mewn amgylcheddau manwerthu, er enghraifft, drwy'r strategaeth fanwerthu 'Her 25.' O dan y dull hwn, dylai unrhyw un y mae'n ymddangos i ddarparu cynnyrch dan gyfyngiadau ei fod dan 25 oed gael ei herio i ddarparu ID derbyniol sy'n profi ei fod dros 18 oed os yw'n dymuno prynu alcohol.
- 3.25 Byddai angen defnyddio oedran herio i amcangyfrif oedran yr wyneb er mwyn lleihau nifer y defnyddwyr sydd o dan 16 oed rhag cael mynediad at swyddogaethau neu wasanaethau cyfyngedig. Byddem yn disgwyl i wasanaethau bennu oedran herio ar lefel briodol yn unol â'r ffin gyfeiliorni ar gyfer y dechnoleg benodol sy'n cael ei defnyddio. Mae hyn yn cyd-fynd â'n hargymhellion ar gyfer unrhyw ddull amcangyfrif oedran.⁴⁵
- 3.26 Er y byddai'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr sy'n oedolion yn debygol o fod yn hŷn na'r oedran herio, byddai'r rheini sy'n agos at yr oedran targed (16 yn yr achos hwn) yn fwy tebygol o gael cais i ddarparu prawf ychwanegol o oedran.⁴⁶ Er enghraifft, pe bai'r oedran herio wedi'i osod ar 19, mae'n debygol y byddai angen i ddefnyddwyr yr amcangyfrifir eu bod rhwng 16 ac 19 oed gael gwiriad oedran ychwanegol.⁴⁷ Dangosir hyn yn Ffigur 2.

⁴⁵ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.13.

⁴⁶ Gellid amcangyfrif bod unigolyn 16 neu 17 oed dros yr oedran herio ac felly nad oes angen gwiriad ychwanegol arno. Mae'r oedran herio ar waith i atal defnyddwyr sydd o dan 16 rhag cael eu hamcangyfrif fel defnyddwyr dros 16 oed.

⁴⁷ Cyflwynodd darparwr ddata perfformiad i Ofcom am ateb amcangyfrif oedran yr wyneb a oedd wedi'i ddylunio ar gyfer y giât 16 oed. Roedd yn dangos bod cyfraddau positif anghywir (yn yr achos hwn lle amcangyfrifir bod unigolyn dros 16 oed pan fydd o dan 16 oed) wedi gostwng yn sylweddol wrth weithredu oedran herio i raddau amrywiol, yn dibynnu ar yr oedran herio a bennwyd (po uchaf yw'r oedran herio, y lleiaf yw'r canlyniadau positif anghywir, yn enwedig i'r rheini sy'n 15 oed).

Ffigur 2: Darluniad o sut y gallai oedran herio weithio'n ymarferol.



- 3.27 **Risgiau osgoi a mesurau lliniaru:** Gall defnyddwyr geisio osgoi archwiliadau amcangyfrif oedran yr wyneb drwy ddefnyddio ffotograff, fideo, neu unrhyw fath arall o gynrychiolaeth ffug o berson hŷn. Fel gyda dulliau eraill, gall canfod bywioldeb helpu i sicrhau nad yw plant yn defnyddio delweddau o oedolion i basio gwiriadau. Yn y profion dylid ystyried y risg y gallai defnyddwyr geisio ymddangos yn hŷn yn fwriadol drwy driciau syml.⁴⁸ Gall cyfyngiadau ailgynnig hefyd helpu i leihau'r risgiau o osgoi sy'n gysylltiedig ag amcangyfrif oedran yr wyneb.⁴⁹
- 3.28 **Ystyriaethau preifatrwydd:** Fel yn achos paru ID llun, gall amcangyfrif oedran yr wyneb gynnwys prosesu data biometrig categori arbennig a bydd goblygiadau preifatrwydd yn dibynnu ar sut mae'r dull yn cael ei roi ar waith.⁵⁰

A all y dulliau hyn weithio'n effeithiol i bob defnyddiwr?

Beth yw'r ystyriaethau hygyrchedd a chynhwysiant ar gyfer sicrwydd oedran yn 16 oed?

- 3.29 Gall dulliau sicrwydd oedran eithrio defnyddwyr o unrhyw oedran os ydynt yn dibynnu ar brosesau nad ydynt yn hygyrch ac yn gynhwysol i bawb.⁵¹ Gall natur a maint yr effeithiau hyn amrywio yn dibynnu ar y dull sicrwydd oedran a ddefnyddir, a gallant effeithio ar rai grwpiau'n wahanol, gan gynnwys y rheini sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig a nodir mewn deddfwriaeth cydraddoldeb.⁵² Er enghraifft, efallai y bydd rhai dulliau'n llai cywir ar

⁴⁸ Canfu arolwg a gynhaliwyd rhwng mis Medi a mis Hydref yn 2025 fod 3% o blant wedi defnyddio llun ar hap i basio gwiriadau amcangyfrif oedran yr wyneb yn ystod y 2 fis diwethaf a soniodd grwpiau ffocws am bobl ifanc yn tynnu llun o flew wyneb arnynt eu hunain fel dull o osgoi gwiriad oedran. Internet Matters, 2026. [The Online Safety Act: Are children safer online?](#), tt.15-16.

⁴⁹ AVPA, 2026. 'Age Assurance at 16 White Paper', t.22.

⁵⁰ Gweler canllawiau data Biometrig Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

⁵¹ Mae rhestr anghyflawn o'r ffyrdd y gall sicrwydd oedran eithrio rhai grwpiau ar gael yma: AVPA, 2023. [Design Age Assurance for Accessibility and Inclusivity](#) [cyrchwyd 9 Medi 2026]

⁵² Efallai y bydd rhwymedigaethau hefyd ar ddarparwyr gwasanaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae canllawiau ar hyn ar gael yn [Equality and Human Rights Commission Guidance](#). [cyrchwyd 15 Medi 2026].

gyfer rhai grwpiau os nad ydynt yn cael eu profi ar ddata poblogaeth amrywiol ac nad ydynt yn bodloni ein maen prawf tegwch.⁵³

- 3.30 Wrth ystyried sicrwydd oedran yn 16 oed, rydym yn disgwyl y bydd ystyriaethau hygyrchedd a chynhwysiant yn effeithio'n benodol ar bobl ifanc 16 ac 17 oed. Mae'r effeithiau hyn yn digwydd oherwydd bod llai o ddulliau effeithiol iawn ar gael ar gyfer y grŵp oedran hwn ar hyn o bryd.
- 3.31 Gall defnyddwyr ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau wynebu mwy o rwystrau, yn enwedig lle mae prosesau sicrwydd oedran yn fwy cymhleth ac yn cynnwys nifer o gamau. Efallai na fydd defnyddwyr eraill yn gallu cwblhau gwiriadau sy'n cynnwys sganio'r wyneb oni bai fod ganddynt fynediad at ffôn clyfar neu dabled gyda chamera sy'n gweithio. Mae hyn yn fwy perthnasol i ddefnyddwyr iau 16 a 17 oed na'r rheini dros 18 oed gan fod llai o ddulliau ar gael yr ystyrir eu bod yn 'hawdd eu defnyddio' ac nad ydynt yn dibynnu ar dechnolegau o'r fath (fel e-bost a dulliau symudol).
- 3.32 Gall dulliau sy'n gofyn am ddogfen ID llun eithrio ar ddefnyddwyr o unrhyw oedran os nad oes ganddynt un.⁵⁴ Er enghraifft, gallai dulliau sicrwydd oedran sy'n dibynnu ar ddefnyddio dogfennau ID llun gael mwy o effaith negyddol ar ddefnyddwyr o gefndiroedd difreintiedig, sy'n llai tebygol yn ystadegol o fod â phasbort.⁵⁵ Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai pobl ifanc yn y system gofal ac yn enwedig y rhai mewn lleoliadau tymor byr fod yn llai tebygol o fod â math o ID llun.⁵⁶
- 3.33 Mae ein hasesiad rhagarweiniol yn awgrymu bod pobl ifanc 16 a 17 oed yn fwy tebygol na defnyddwyr o oeddrannau eraill o fod angen mynediad at ddogfen ID llun. Mae hyn oherwydd yn y dulliau a restrir fel rhai sy'n gallu bod yn effeithiol iawn yn 16 oed, mae'n debygol y bydd angen ID llun ar ryw adeg yn y broses. Mae hyn naill ai oherwydd bod angen ID llun ar y dull ei hun, oherwydd bod perchnogaeth ID llun yn rhan o'r broses sylfaenol ar gyfer cael mynediad at ddull arall (fel agor cyfrif banc neu ddefnyddio gwasanaeth hunaniaeth ddigidol), neu oherwydd y bydd person ifanc 16 neu 17 oed yn fwy tebygol o ddod o fewn yr oedran herio neu oedran byffer ar gyfer dulliau amcangyfrif yr wyneb, ac y gofynnir iddynt brofi eu hoedran gyda dull eilaidd.

Nifer y bobl sydd â phasbortau a thrwyddedau gyrru (dros dro) ar hyn o bryd

- 3.34 Amcangyfrifir bod gan 94% o bobl 16 oed a hŷn yn y DU naill ai basbort neu drwydded yrru.⁵⁷ Gan fod pobl ifanc 16 a 17 oed yn fwy tebygol o fod angen mynediad at ID llun, rydym wedi darparu dadansoddiad o'r niferoedd sydd â phasbortau a thrwyddedau gyrru ar gyfer yr oeddrannau hyn yn Nhabl 3.

⁵³ Mae hyn yn arbennig o berthnasol ar gyfer dulliau sy'n cynnwys prosesu data biometrig a ddylai gyfrif am wahanol liw croen, rhyw a nodweddion wynebol annodweddiadol.

⁵⁴ Cabinet Office, 2021. [Photographic ID Research: Headline Findings Report](#). [cyrchwyd 28 Medi 2026].

⁵⁵ Yn Lloegr, nid oes pasbort gan 21.2% o'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'i gymharu â 7.1% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. O [English Census data on passport ownership, 2021](#) wedi'i haenu ag [English indices of deprivation 2025](#). [cyrchwyd 28 Medi 2026].

⁵⁶ Praesidio safeguarding, DCMS. 2023. [Making age assurance work for everyone: inclusion considerations for age assurance and children](#), t.4.

⁵⁷ Mae hyn yn cynnwys trwyddedau gyrru dros dro. Electoral Commission, 2026. [Public attitudes to elections and democracy: winter tracker](#). [cyrchwyd 14 Hydref 2026].

Tabl 3: Amcangyfrif o nifer y bobl 16 ac 17 oed sydd â phasbortau a thrwyddedau gyrru⁵⁸

Dogfen ID llun	Pobl 16 oed	Pobl 17 oed
Perchnogaeth Pasbort Yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021/2022 ar draws y DU	89%	89%
Perchnogaeth trwydded yrru (dros dro) Yn seiliedig ar drwyddedau gyrru a gyhoeddwyd ym Mhrydain Fawr ym mis Awst 2026. ⁵⁹	19%	65%

3.35 Dylid dehongli'r canrannau hyn fel ciplun cyfredol o berchnogaeth dogfennau, yn hytrach na chyfran y bobl ifanc sy'n gallu cael gafael ar un. Gall gwahaniaethau yn y defnydd adlewyrchu pa mor ddefnyddiol yw pob math o ID llun ar gyfer pob grŵp oedran. Er enghraifft, er ei bod yn bosibl gwneud cais am drwydded yrru dros dro yn y DU pan yn 15 mlwydd a 9 mis oed, nid oes llawer o resymau dros wneud hynny nes bydd person ifanc yn paratoi i ddysgu gyrru yn 17 oed neu brynu alcohol yn 18 oed, yn enwedig pan fydd cost yn gysylltiedig â chael trwydded. Er nad ydym yn gwybod union nifer y bobl ifanc nad oes ganddynt basbort na thrwydded yrru (dros dro), mae tystiolaeth a ddarparwyd i ni gan CitizenCard yn awgrymu nad yw tua 150,000 o bobl ifanc 16 ac 17 oed ledled y DU yn meddu ar y naill na'r llall.⁶⁰

Pa fathau eraill o ID llun y gellid eu defnyddio?

- 3.36 Mae'n debygol y bydd angen i bobl ifanc 16 a 17 oed heb fynediad at basbort neu drwydded yrru (dros dro) gymryd camau gweithredol i gael un, neu gael math arall o ID llun. Un dewis arall yw gwneud cais am gardiau ID llun sydd wedi'u hardystio gan y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS).⁶¹ Ceir sawl darparwr ag achrediad PASS ac mae'r broses ymgeisio'n amrywio yn ôl darparwr. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'n bosibl i bobl ifanc 16 a 17 oed wneud cais am gerdyn ag achrediad PASS heb feddu ar ddogfennau ID llun.
- 3.37 Mae'r Young Scot National Entitlement Card yn gerdyn am ddim sydd wedi'i achredu gan PASS ac sydd ar gael i bobl ifanc rhwng 11 a 26 oed sy'n byw yn yr Alban y gellir gwneud cais amdano heb ddogfen ID llun ac sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio'n eang.⁶² Mae hyn yn golygu bod pobl ifanc 16 ac 17 oed yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn fwy tebygol

⁵⁸Perchnogaeth pasbort yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2021/2022 ([Cymru a Lloegr](#), [yr Alban](#), [Gogledd Iwerddon](#)). [cyrchwyd 09 Medi 2026]. Sylwch, ar gyfer yr Alban, defnyddiwyd niferoedd cyfun ar gyfer pobl ifanc 16 ac 17 oed. Data trwyddedau gyrru yn seiliedig ar [Department of Transport GB Driving Licence Data](#) Awst 20206, a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) [Mid-2025 estimates of the population for the UK, England, Wales, Scotland, and Northern Ireland](#). [cyrchwyd 01 Hydref 2026].

⁵⁹Nid yw amcangyfrifon trwyddedau gyrru yn cynnwys Gogledd Iwerddon.

⁶⁰Amcangyfrifwyd o arolwg sampl anghynrychioliadol a gynhaliwyd mewn ysgolion gydag 8,459 o ymatebwyr 16 a 17 oed. Mae'n bosibl gwneud cais am drwydded yrru (dros dro) heb basbort.

⁶¹Y Cynllun Safonau Prawf Oedran (PASS) yw cynllun achredu prawf oedran cenedlaethol y DU, a gymeradwywyd gan y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ac Awdurdod y Diwydiant Diogelwch (SIA). Mae rhestr o'r cynlluniau PASS a'r cyflenwyr ar gael ar [wefan Cynllun PASS](#). [cyrchwyd 14 Hydref 2026].

⁶²Mae hyn yn seiliedig ar 64,739 o gardiau'n cael eu rhoi i bobl ifanc 16 oed a 67,076 yn cael eu rhoi i bobl ifanc 17 oed yn yr Alban erbyn mis Mehefin 2026. Gallai'r defnydd eang hwn fod oherwydd bod y cerdyn yn cynnig mynediad at drafndiaeth gyhoeddus am bris gostyngol neu am ddim.

na'r rheini yn yr Alban o fod angen ID llun os nad oes ganddynt fynediad at basbort neu drwydded yrru (dros dro), gan eu bod yn llai tebygol o fod â cherdyn sydd wedi'i achredu gan PASS yn barod.

- 3.38 Ers 1 Hydref 2026, mae CitizenCard wedi cynnig eu cerdyn ID llun wedi'i achredu gan PASS i bobl ifanc 16 a 17 oed yn y DU am ddim. Mae cost y cerdyn wedi cael ei dynnu i hwyluso hygyrchedd ID prawf oedran i gefnogi'r cyhoeddiad ynghylch y gwaharddiad ar gyfryngau cymdeithasol.⁶³ Mae hyn yn golygu na fydd baich costau ychwanegol ar bobl ifanc 16 a 17 oed y tu allan i'r Alban i gael ID llun pan ddaw'r rheoliadau i rym. Mae hefyd yn werth nodi bod dros 50% o geisiadau am gerdyn CitizenCard 16 i 17 oed wedi'u cwblhau heb fath arall o ID llun wrth gofrestru ac nad oes angen cael pasbort na thrwydded cyn gwneud cais.⁶⁴

Beth yw'r rhwystrau rhag cael ID llun?

- 3.39 Er bod opsiynau am ddim ar gael, mae rhwystrau posibl rhag cael gafael ar unrhyw fath o ddogfen ID llun. Efallai y bydd angen cymorth ar rai pobl ifanc 16 a 17 oed yn ystod y broses ymgeisio ac felly byddai angen iddynt gael mynediad at riant, gwarcheidwad neu weithiwr proffesiynol sy'n barod i wneud hynny. Efallai fod gan eraill ddogfen ID llun yn barod ond efallai na fydd ganddynt fynediad annibynnol ati os yw'n cael ei chadw gan oedolyn (er enghraifft, pan fydd pasbort yn cael ei gadw mewn sêff teulu) sy'n golygu efallai y bydd angen iddynt ofyn am ganiatâd o hyd i gwblhau gwiriad oedran er eu bod dros 16 oed.⁶⁵

Beth yw'r ystyriaethau allweddol i wasanaethau wrth weithredu'r cyfyngiadau newydd?

- 3.40 Mae cyflwyno cyfyngiadau ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed a gosodiadau diogelwch diofyn ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed, ochr yn ochr â mesurau presennol i amddiffyn pob plentyn o dan 18 oed, yn golygu efallai y bydd angen i rai darparwyr (y rheini sydd o fewn cwmphas rheoleiddio ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed a phobl ifanc o dan 18 oed) weithredu prosesau sicrwydd oedran ar gyfer y ddau oedran. Byddai hyn yn cyflwyno rhai dewisiadau gweithredu ar gyfer y darparwyr gwasanaeth hynny.⁶⁶
- 3.41 Ar gyfer darparwyr gwasanaeth sy'n gorfod rhoi mesurau sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith yn 16 a 18 oed, neu sy'n gorfod cynnig un neu fwy o ddewisiadau diogelwch diofyn i bobl ifanc 16 a 17 oed, gall gwiriad oedran manwl fod yn ddefnyddiol. Mae'n debyg y byddai hyn drwy ddefnyddio dull dilysu oedran, a fyddai'n cadarnhau oedran defnyddiwr yn erbyn dyddiad geni ar ryw adeg yn y broses. Mae enghreifftiau'n cynnwys paru ID llun, gwybodaeth bancio neu wasanaethau hunaniaeth ddigidol.
- 3.42 Nid yw dulliau amcangyfrif oedran ar eu pen eu hunain yn prosesu dyddiad geni ac efallai na fyddant yn gallu lleoli defnyddiwr yn gywir yn yr ystod oedran 16 i 17 oed gyda digon o fanylder i weithredu cyfyngiadau oedran deuol. Fel y nodir yn ein canllawiau HEAA presennol, dylai gwasanaethau sy'n defnyddio dull amcangyfrif oedran ddefnyddio oedran herio, a fyddai'n debygol o fod angen bod yn dros 18 oed ar gyfer y porth oedran 16, sy'n

⁶³ CitizenCard. [Free photo ID for more young people: the 16-17 CitizenCard online offer](#). [cyrchwyd 01 Hydref 2026].

⁶⁴ Mae hyn yn seiliedig ar 36,686 o ddeiliaid cardiau 16 ac 17 oed ym mis Medi 2026. Gellir cael cardiau drwy ganolwr dibynadwy neu raglen ysgol.

⁶⁵ Praesidio safeguarding, DCMS, 2023. Making age assurance work for everyone, t.5.

⁶⁶ Nid ydym yn gwybod eto pa wasanaethau fydd o fewn cwmphas y cyfyngiadau a gyhoeddwyd ar gyfer pobl ifanc o dan 16 oed a phobl ifanc o dan 18 oed.

golygu ei bod yn debygol y byddai angen i bobl ifanc 16 i 17 oed brofi eu hoedran gan ddefnyddio dulliau dilysu oedran.

- 3.43 Os bydd darparwyr yn penderfynu defnyddio dulliau ‘addasu oedran’ cyfrifon yn awtomatig i alluogi defnyddwyr i symud drwy wahanol grwpiau oedran wrth iddynt fynd yn hŷn, bydd angen iddynt gael a chadw dyddiad geni defnyddiwr. Mae cyfaddawdau posibl i wasanaethau eu hystyried wrth benderfynu a ddylid defnyddio’r dull hwn: byddai angen i ddefnyddwyr naill ai gydsynio i’w dyddiad geni gael ei brosesu fel hyn; neu gwblhau ail wiriad oedran yn 18 oed i gael mynediad at fersiwn anghyfyngedig o wasanaeth, a allai gynyddu ffrithiant i ddefnyddwyr ac arwain at gostau ychwanegol.

Pa dulliau sicrwydd oedran ychwanegol sy’n gallu bod yn effeithiol iawn yn 18 oed?

- 3.44 Mae ein hasesiad rhagarweiniol yn awgrymu nad yw’r dulliau yn yr adran hon yn gallu bod yn effeithiol iawn wrth benderfynu a yw defnyddiwr yn 16 oed neu’n hŷn ond eu bod yn gallu penderfynu a yw defnyddiwr yn 18 oed neu’n hŷn. Gallai’r dulliau hyn felly fod yn rhan o ddull ehangach darparwr gwasanaeth o sicrhau oedran, gan gynnig mwy o ddewis i oedolion o ran sut maen nhw’n profi eu hoedran. Y rheswm am hyn yw, os penderfynir bod defnyddiwr yn 18 oed neu’n hŷn drwy wiriad oedran effeithiol iawn, nid oes angen iddo gwblhau gwiriad pellach i brofi ei fod dros 16 oed.
- 3.45 Nid oes angen ID llun ar bob un o’r dulliau hyn ac felly gall prosesau fod yn fwy hygyrch yn gyffredinol. Yn gyffredinol, maent hefyd yn llai ymwithiol na dulliau sy’n mynnu bod defnyddwyr yn cyflwyno dogfennau ID llun a gallant gynnig profiad mwy di-dor i ddefnyddwyr pan fydd manylion eisoes yn cael eu cadw gan y gwasanaeth, fel cyfeiriad e-bost neu rif ffôn.

Gwiriadau dilysu cerdyn credyd

- 3.46 Mae gwiriadau oedran sy’n seiliedig ar gerdyn credyd yn gweithio drwy ofyn i ddefnyddiwr roi manylion ei gerdyn credyd, ac ar ôl hynny bydd prosesydd taliadau’n anfon cais i’r banc sy’n ei roi i wirio bod y cerdyn yn ddilys. Gellir cymryd bod cymeradwyaeth gan y banc sy’n rhoi’r cerdyn yn dystiolaeth bod y defnyddiwr dros 18 oed.
- 3.47 Ni ellir defnyddio’r dull hwn i benderfynu a yw rhywun yn 16 oed neu’n hŷn gan fod yn rhaid i unigolion fod yn 18 oed neu’n hŷn i gael cerdyn credyd yn y DU.⁶⁷
- 3.48 Fel y nodir yn ein canllawiau HEAA presennol, lle mae gwasanaethau’n gweithredu prosesau sicrwydd oedran sy’n dibynnu ar fanylion a geir drwy ddogfennau adnabod defnyddiwr, gan gynnwys cardiau credyd, byddem yn disgwyl i ddarparwyr gael ffordd o wirio bod y manylion a ddarperir yn perthyn i’r defnyddiwr sy’n ceisio cael mynediad at y gwasanaeth.⁶⁸

Gwiriadau dilysu gweithredwyr rhwydweithiau symudol

- 3.49 Mae pob un o weithredwyr rhwydweithiau symudol y DU wedi cytuno ar god ymarfer lle maent yn defnyddio hidlydd atal cynnwys yn awtomatig, sy’n atal plant rhag cael mynediad

⁶⁷ Rydym yn ymwybodol y gellir defnyddio’r term ‘cerdyn credyd’ yn yr Unol Daleithiau i gyfeirio at gardiau debyd. Er eglurder, pan fyddwn yn cyfeirio at ‘gardiau credyd’ rydym yn golygu cardiau sy’n gysylltiedig â chyfrif lle mae arian yn cael ei fenthycu a’i ad-dalu, ac nid cardiau debyd sy’n gysylltiedig â chyfrifon cyfredol, nad oes ganddynt yn aml yr un gofynion o ran bod yn 18 oed a hŷn.

⁶⁸ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.15.

at wefannau â chyfyngiad oedran dros ryngrwyd symudol ar SIMs contract a thalu wrth fynd.⁶⁹ Gall defnyddwyr dynnu'r hidlydd hwn drwy brofi eu bod yn oedolyn.⁷⁰ Gall gwiriadau oedran gweithredwr rhwydwaith symudol weithredu drwy wirio a yw'r hidlydd ar ffôn symudol defnyddiwr wedi cael ei dynnu. Os yw'r hidlydd wedi cael ei dynnu, mae hyn yn dangos bod defnyddiwr cofnodedig y ddyfais dros 18 oed. Fodd bynnag, nid oes hidlydd cynnwys yn bodoli ar hyn o bryd yn 16 oed.

- 3.50 Mae gwiriadau oedran eraill yn gweithio drwy gadw gwybodaeth am ddeiliad y cyfrif, sy'n gallu cynnwys gwybodaeth adnabod, fel oedran. Byddai hyn yn gweithio mewn ffordd debyg i wybodaeth bancio.⁷¹ Fodd bynnag, ni all unigolion dan 18 oed gael contract ffôn talu'n fisol safonol yn eu henw eu hunain am ei fod yn cael ei gategoreiddio fel cytundeb credyd ac ni all cynlluniau ffôn symudol eraill rwyngwymo deiliad y contract i ddefnyddiwr terfynol y ddyfais.⁷²

Amcangyfrif oedran ar sail e-bost

- 3.51 Mae amcangyfrif oedran ar sail e-bost yn pennu oedran defnyddiwr drwy ddadansoddi'r gwasanaethau ar-lein eraill lle mae e-bost y defnyddiwr hwnnw wedi cael ei ddefnyddio. Mae llawer o'r signalau cryfaf a ddefnyddir gan y systemau hyn yn deillio o wasanaethau sydd fel arfer ond yn cael eu defnyddio gan oedolion, fel sefydliadau ariannol, gan gynnwys benthycwyr morgeisi. O ganlyniad, rydym o'r farn nad yw'r dull hwn yn gallu pennu'n ddibynadwy ar hyn o bryd a yw defnyddiwr yn 16 neu'n 17 oed gyda chywirdeb digonol.
- 3.52 Mae hyn yr un fath ar gyfer dulliau amcangyfrif sy'n seiliedig ar rifau symudol, sy'n gweithio ar egwyddor debyg sy'n seiliedig ar wasanaethau sy'n gysylltiedig â rhif ffôn.

Pa ddulliau sicrwydd oedran nad ydynt yn gallu bod yn effeithiol iawn ar unrhyw oedran?

Hunan-ddatgan oedran

- 3.53 Mae hyn yn cynnwys gofyn i ddefnyddiwr roi ei ddyddiad geni heb unrhyw dystiolaeth bellach i gadarnhau'r wybodaeth hon, neu ofyn i ddefnyddiwr dicio blwch i gadarnhau ei fod dros oedran penodol.⁷³
- 3.54 Fel y nodir yn y Ddeddf, nid yw hunan-ddatganiad yn unig yn cael ei ystyried yn ddull dilysu oedran nac amcangyfrif oedran ac felly ni ellir ei ddefnyddio fel sicrwydd oedran ar gyfer penderfynu a yw defnyddiwr yn oedolyn.⁷⁴ Am yr un rheswm, nid ydym yn credu y byddai'n ddull effeithiol iawn o benderfynu a yw rhywun yn 16 oed neu'n hŷn.

⁶⁹ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.8.

⁷⁰ Mae sawl ffordd o gael gwared ar hidlydd atal cynnwys, er enghraifft drwy gwblhau gwiriad oedran effeithiol iawn yn uniongyrchol gyda gweithredwr y rhwydwaith symudol.

⁷¹ Camara. [Know Your Customer Age Verification – Camara Project](#). [cyrchwyd 27 Awst 2026].

⁷² Ar sail ein hymgysylltiad â darparwr gwasanaeth sy'n darparu datrysiaid gwirio oedran gweithredwr rhwydwaith symudol [3<]

⁷³ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.9.

⁷⁴ Adran 230(4) y Ddeddf.

Cyfngiadau cytundebol cyffredinol ar ddefnyddio gwasanaethau a reoleiddir

- 3.55 Mae hyn yn cynnwys cyfngiadau fel rhan o delerau gwasanaeth darparwr gwasanaeth, neu ymwadiadau cyffredinol sy'n mynnu y dylai pob defnyddiwr fod o oedran penodol neu'n hŷn, heb unrhyw sicrwydd oedran ychwanegol.⁷⁵ Yn yr un modd â hunan-ddatganiad, nid yw hyn yn sicrwydd oedran effeithiol iawn.

Cydsyniad rhieni gwiriadwy (VPC)

- 3.56 Cydsyniad rhieni gwiriadwy yw pan fydd rhiant neu warcheidwad yn ymgymryd â gwiriad oedran i gymeradwyo mynediad plentyn at lwyfan. Er bod y dulliau o gael cydsyniad rhieni gwiriadwy yn amrywio, maent fel arfer yn cynnwys plentyn yn datgan ei oedran ei hun ac yn rhoi cyfeiriad e-bost oedolyn.⁷⁶ Gwahoddir yr oedolyn i gael gwiriad oedran ei hun i brofi ei fod yn oedolyn ac yna gofynnir iddo gymeradwyo oedran y plentyn sydd wedi hunan-ddatgan..
- 3.57 Ar hyn o bryd, defnyddir cydsyniad rhieni gwiriadwy yn bennaf fel ffordd o gael cydsyniad rhieni at ddibenion prosesu data personol ar gyfer defnyddwyr o dan 13 oed,⁷⁷ ac i roi'r opsiwn i rieni ddefnyddio rheolaethau rhieni, yn hytrach na phenderfynu a yw defnyddiwr dros neu o dan oedran penodol.
- 3.58 Yn ein [Datganiad Ebrill 2025](#), fe wnaethom ddweud nad oeddem yn ymwybodol bod cydsyniad rhieni gwiriadwy yn cael ei ddefnyddio fel math o sicrwydd oedran ac felly nid oeddem wedi ei gynnwys yn ein canllawiau fel dull a all fod yn effeithiol iawn. Gan nad yw'r dull yn gwirio'n annibynnol bod yr oedolyn sy'n rhoi'r cydsyniad yn perthyn i'r plentyn, nid oes llawer o sicrwydd bod yr unigolyn yn gwybod oedran y defnyddiwr neu'n ei gynrychioli'n gywir. Felly, wrth ystyried y defnydd posibl o gydsyniad rhieni gwiriadwy fel dull sicrwydd oedran, fe wnaethom egluro bod angen i ddarparwyr gwasanaeth allu sicrhau bod yr e-bost a ddarperir gan y plentyn yn wir yn e-bost rhiant neu ofalwr y plentyn.⁷⁸
- 3.59 Rydym wedi ystyried y dull hwn ymhellach yng nghyd-destun atal pobl ifanc dan 16 oed rhag creu cyfrif neu gael gafael ar wasanaeth cyfryngau cymdeithasol. Hyd yn oed pe gellid cadarnhau'r berthynas rhwng y plentyn a'r rhiant neu'r gofalwr, mae yna dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai rhai rieni ddarparu gwybodaeth anghywir am oedran er mwyn helpu plant i osgoi cyfngiadau oedran.⁷⁹ Felly, nid ydym o'r farn bod cydsyniad rhieni gwiriadwy ar ei ffurf bresennol yn ddigon cadarn i gael ei ystyried yn ddull sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed.

⁷⁵ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.9.

⁷⁶ Gan nad yw VPC yn gwirio perthynas y plentyn â'r rhiant neu'r gofalwr, dylid cymryd bod pob cyfeiriad at 'riant' yn golygu'r rhiant, y gofalwr neu'r oedolyn dynodedig.

⁷⁷ Dim ond pan fydd gwasanaeth yn dibynnu ar gydsyniad fel ei sail gyfreithlon dros brosesu data plentyn y mae hyn yn berthnasol.

⁷⁸ Ofcom, 2025. Datganiad: Protecting children from harms online, paragraffau 13.381 i 13.382.

⁷⁹ Mae tystiolaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom yn awgrymu bod oedolion yn helpu plant i osgoi cyfngiadau oedran. ICO, 2026. [Children's and Parents' Attitudes on Information Rights](#), p.31. Ofcom, 2026. [Adults' Media Lives: Wave 21](#), t.44.

Pa dulliau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg allai gefnogi cyfyngiadau oedran newydd ar gyfer gwasanaethau ar-lein yn y dyfodol?

- 3.60 Mae'r diwydiant sicrwydd oedran ar-lein yn datblygu'n gyflym. Rydym yn disgwyl gweld rhagor o arloesi mewn dulliau wrth i'r galw rheoleiddiol gynyddu ac wrth i'r cymhellion gynyddu i ddarparwyr sicrwydd oedran a darparwyr gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol gynnig y profiad gorau i ddefnyddwyr wrth brofi eu hoedran.
- 3.61 Ar hyn o bryd, o'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid perthnasol yn y diwydiant, ychydig o dystiolaeth rydym wedi'i chanfod o ddulliau newydd a dulliau sy'n dod i'r amlwg a allai fod yn gallu bod yn effeithiol iawn yn y dyfodol o ran penderfynu a yw defnyddiwr yn 16 oed neu'n hŷn ai peidio.
- 3.62 Fodd bynnag, rydym yn nodi, o dan y "porth gwybodaeth" yn Neddf Data (Defnyddio a Mynediad) 2025, y gall gwasanaethau dilysu digidol ardystiedig ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus at ddibenion darparu gwasanaeth dilysu, ar gais yr unigolyn y mae'r data'n ymwneud ag ef ac yn unol â deddfwriaeth diogelu data a deddfwriaeth arall.⁸⁰
- 3.63 Rydym yn rhagweld, yn y tymor hwy, drwy gydweithio ac arloesi ar draws y diwydiant a thu hwnt, gan gynnwys rhwng darparwyr hunaniaeth ddigidol, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, OfDIA, Ofcom a Llywodraeth y DU, y gallai'r porth hwn ddarparu mwy o wybodaeth gyhoeddus a chefnogi ffyrdd newydd o bennu oedran. Fodd bynnag, byddai hyn yn cymryd amser i'w ddatblygu a bod yn barod ar gyfer y farchnad ac mae'n annhebygol o gefnogi dulliau newydd erbyn gwanwyn 2027.

Pa rôl allai cyfleu oedran ei chwarae wrth weithredu cyfyngiadau oedran?

- 3.64 Fel y nodir yn ein hadroddiad sicrwydd oedran, mae rhai gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol ar hyn o bryd yn defnyddio modelau cyfleu oedran fel rhan o'u dull sicrwydd oedran i ganfod a defnyddio mesurau diogelu ar gyfer defnyddwyr sy'n blant, gan gynnwys mewn rhai amgylchiadau i geisio gwahaniaethu rhwng plant o wahanol oedrannau.⁸¹
- 3.65 Fel rhan o'r dull hwn, mae'n ofynnol yn aml i ddefnyddwyr ddatgan eu hoedran wrth ddefnyddio gwasanaeth am y tro cyntaf. Mae darparwyr wedyn yn defnyddio amrywiaeth o fodelau ystadegol neu fodelau rhagfynegi oedran dysgu peirianyddol i gyfleu oedran y defnyddiwr yn barhaus. Mae hyn yn aml yn seiliedig ar 'arwyddion' o ymddygiad defnyddwyr neu ryngweithio defnyddwyr â chynnwys neu swyddogaethau ar wasanaeth, sy'n golygu bod angen prosesu data personol.
- 3.66 Yn ein hadroddiad sicrwydd oedran, roeddem yn glir na all dulliau cyfleu oedran presennol weithredu fel porth oedran, gan ei bod yn ofynnol i'r defnyddiwr fod yn rhyngweithio â'r gwasanaeth eisoes.⁸² Yng nghyd-destun atal pobl ifanc dan 16 oed rhag creu cyfrif neu gael gafael ar swyddogaethau penodol ar wasanaethau cyfryngau cymdeithasol, nid ydym yn credu y byddai'n ymarferol i wasanaethau weithredu dulliau cyfleu oedran i bennu oedran

⁸⁰ I gael rhagor o fanylion, gweler OfDIA, 2026, [‘The information gateway: enabling secure sharing of information held by public authorities with trusted digital verification services’](#). [cyrchwyd 09 Medi 2026].

⁸¹ Ofcom, 2026. [Report on the use of age assurance](#), adran 5.

⁸² Ofcom, 2026. Report on the use of age assurance, paragraff 5.30.

defnyddwyr newydd. Mae'n ofynnol i ddefnyddwyr fod yn weithredol ar y gwasanaeth am gyfnod cyn y gellir cyfleu oedran. Felly, byddai angen i ddefnyddwyr, gan gynnwys y rheini a allai fod o dan 16 oed, gael mynediad at y gwasanaeth cyfyngedig a rhyngweithio â chynnwys a swyddogaethau cyn y gellir pennu eu bod o dan 16 oed, gan eu rhoi mewn perygl o ddod i gysylltiad â niwed.

- 3.67 Gall modelau cyfleu oedran chwarae rhan ategol fel rhan o system sicrwydd oedran ehangach, er enghraifft, drwy gynyddu cadernid drwy weithredu fel adnodd gwrth-osgoi i ganfod pobl ifanc dan 16 oed a allai fod wedi osgoi gwiriad oedran effeithiol iawn.
- 3.68 Rydym yn bwriadu darparu rhagor o fanylion i ddarparwyr gwasanaethau mewn canllawiau i'w helpu i roi sicrwydd oedran effeithiol iawn ar waith yn 16 oed er mwyn cydymffurfio â'u dyletswyddau. Byddwn yn ymgynghori ar hyn ar ôl i reoliadau drafft y llywodraeth gael eu cyflwyno yn y Senedd.

4. Sut gellid cryfhau prosesau sicrwydd oedran?

Osgoi a dadleoli

- 4.1 Gallai osgoi a dadleoli effeithio ar ba mor effeithiol yw'r cyfyngiadau newydd o ran amddiffyn plant o dan 16 oed.
- 4.2 Fel y mae'r llywodraeth wedi cydnabod, bydd rhai plant yn ceisio osgoi'r cyfyngiadau oedran newydd.⁸³ Mae ein canllawiau HEAA presennol yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau nodi a chymryd camau priodol i liniaru yn erbyn dulliau osgoi gan blant, er mwyn sicrhau bod eu proses sicrwydd oedran yn gadarn.⁸⁴ Fodd bynnag, ni ellir dileu'r risg o osgoi yn gyfan gwbl, a bydd rhai plant yn llwyddo i osgoi gwiriadau oedran i gael mynediad at swyddogaethau neu wasanaethau cyfryngau cymdeithasol sydd â chyfyngiad oedran.
- 4.3 Fel arall, gall plant symud at wahanol wasanaethau neu weithgareddau ar-lein o ganlyniad i'r cyfyngiadau oedran newydd (dadleoli). Mae'r risg a achosir gan ddadleoli yn dibynnu ar y risg o niwed sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau y mae plant yn mudo iddynt.
- 4.4 Ddeuddeng mis ar ôl i'r cyfyngiadau oedran newydd ddod i rym, rydym yn bwriadu cyhoeddi ymchwil ar osgoi a dadleoli, mewn ymgynghoriad â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Bydd hyn yn cefnogi'r llywodraeth i sicrhau bod yr amddiffyniadau newydd ar gyfer plant yn effeithiol yn ymarferol.

Tystiolaeth gyfredol ar osgoi mesurau sicrwydd oedran

- 4.5 Gall osgoi ddigwydd ar wahanol lefelau o'r system ac ar wahanol gamau mewn proses sicrwydd oedran. Gall plant osgoi gwiriadau oedran drwy ddefnyddio technegau sy'n tanseilio dilysrwydd yr archwiliad oedran ei hun. Mae'r rhain yn cynnwys ymdrechion i dwyllo gwiriad amcangyfrif oedran yr wyneb drwy ddefnyddio llun neu fideo ffug neu wedi'i fanipiwleiddio, cwblhau gwiriad oedran drwy ddarparu gwybodaeth ffug, neu ddibynnu ar oedolyn i gwblhau gwiriad oedran ar ei ran.⁸⁵ Gall defnyddiwr osgoi mesurau diogelu yn gyfan gwbl drwy ddefnyddio VPNs neu dechnolegau tebyg eraill sy'n cuddio lleoliad defnyddiwr o ystyried mai dim ond i ddefnyddwyr yn y DU y gall gwasanaethau gymhwyso'r cyfyngiadau hyn. Mae defnyddio VPNs yn y DU yn gyfreithlon ac nid oes angen i wasanaethau atal mynediad at eu gwasanaeth drwy ddefnyddio VPNs. Gall defnyddwyr hefyd osgoi'r gwiriad oedran drwy gael mynediad at y gwasanaeth drwy gyfrif oedolyn.⁸⁶

⁸³ DSIT, 2026. [June progress statement: letter from DSIT Secretary of State to Ofcom Chair and CEO](#).

⁸⁴ Ofcom, 2025. [Guidance on highly effective age assurance for Part 3 services](#), tt.14-16.

⁸⁵ Mae tystiolaeth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom yn awgrymu bod oedolion yn helpu plant i osgoi cyfyngiadau oedran. ICO, 2026. [Children's and Parents' Attitudes on Information Rights](#), p.31. Ofcom, 2026. [Adults' Media Lives: Wave 21](#), t.44.

⁸⁶ Yn ymchwil Ofcom, roedd oedolion hefyd wedi tynnu sylw at rannu cyfrifon fel llwybr osgoi tebygol. Dywedodd un cyfranogwr "y byddan nhw'n gofyn i rywun arall fewngofnodi ar eu rhan." Ofcom, 2026. [Adults' Media Lives](#), t.44.

- 4.6 Canfu tystiolaeth gynnar gan Gomisiynydd eDdiogelwch Awstralia ar SMMA mai'r prif reswm pam roedd plant yn dal i ddal cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, er gwaethaf y cyfyngiad oedran, oedd oherwydd bod llwyfannau'n rhoi mesurau sicrwydd oedran ar waith yn aneffeithiol.⁸⁷ Ar draws llwyfannau â chyfyngiad oedran, y prif reswm a roddodd plant pam eu bod yn dal i fod â chyfrif â chyfyngiad oedran oedd nad oedd y llwyfan wedi gofyn iddynt gadarnhau eu hoedran eto (50.2%).⁸⁸ Roedd rhywfaint o dystiolaeth bod plant yn cymryd camau i osgoi cyfyngiadau oedran drwy restru eu hoedran fel 16 oed neu hŷn; roedd cymorth gan rieni a defnyddio rhwydwaith preifat rhithwir (VPN) yn llai cyffredin.⁸⁹ Gallai'r gyfradd isel hon o osgoi adlewyrchu'r cymhelliant is i osgoi oherwydd bod llawer o blant yn parhau i gael mynediad at eu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Dylid ystyried y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun cyfundrefn Awstralia, sy'n mynnu bod darparwyr gwasanaeth yn cymryd "camau rhesymol" i atal defnyddwyr sydd â chyfyngiad oedran rhag cael cyfrifon, yn hytrach na mynnu bod sicrwydd oedran effeithiol iawn yn cael ei ddefnyddio.⁹⁰
- 4.7 Yn ein hadroddiad ar ddefnyddio sicrwydd oedran, gwelsom fod lefelau osgoi gwiriadau oedran yn 18 oed gan blant yn ymddangos yn isel, gyda lleiafrif cymharol fach o blant yn gwneud hynny. Fodd bynnag, yn achos gwasanaethau pornograffi, roedd argaeledd gwasanaethau heb sicrwydd oedran effeithiol iawn yn golygu y gallai plant gael gafael ar gynnwys pornograffig heb fod angen osgoi gatiâu oedran.⁹¹ Yn adroddiad Ofcom [Media Use and Attitudes report](#) 2026, dywedodd 5% o blant (13 i 17 oed) wrthym eu bod wedi osgoi rheolaethau rieni a gwiriadau oedran yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, mae'n bosibl bod ffigurau hunan-gofnodedig yn tanddatgan gwir lefel yr osgoi oherwydd rhagfarn ymateb.⁹²
- 4.8 O ran defnyddio VPNau i osgoi cyfyngiadau oedran, canfu ein hymchwili ar Ddefnydd Plant o VPNau, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2026, fod chwarter y plant wedi defnyddio VPN yn ystod y chwe mis blaenorol. Dywedodd 5% eu bod wedi defnyddio VPN yn ystod y chwe mis blaenorol naill ai i gael mynediad at gynnwys a fwriadwyd ar gyfer pobl hŷn na nhw, neu i gael mynediad at nodweddion a swyddogaethau sy'n destun cyfyngiadau oedran.⁹³ Canfu ymchwili ddiweddar gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fod dros draean (36%) o blant 12 oed a hŷn wedi dweud eu bod wedi defnyddio VPN.⁹⁴

Risgiau osgoi ar gyfer y cyfyngiadau oedran newydd posibl

- 4.9 Mae gweithredu cyfyngiadau oedran newydd ar gyfer pobl ifanc dan 16 oed yn achosi risgiau ac ystyriaethau penodol:
- **Mwy o gymhelliant i rai dan 16 oed osgoi cyfyngiadau:** Mae cyfryngau cymdeithasol yn rhan annatod o fywyd bob dydd llawer o bobl ifanc a bydd cyfyngiadau ar rai o'r

⁸⁷ eSafety Commissioner, 2026. [Early days, early insights: Understanding experiences of social media age restrictions at the three-month follow up](#), t.12.

⁸⁸ eSafety Commissioner, 2026. Early days, early insights, t.12.

⁸⁹ eSafety Commissioner, 2026. Early days, early insights, t.12.

⁹⁰ Australian Government Federal Register of Legislation, 2024. [Online Safety Amendment \(Social Media Minimum Age\) Act 2024 - Federal Register of Legislation](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

⁹¹ Ofcom, 2026. [Report on the use of age assurance](#), tt.61-64.

⁹² Ofcom, 2026. [Children and Parents: Media Use and Attitudes Report](#), t.58.

⁹³ Ofcom, 2026. [Children's use of VPNs](#). [cyrchwyd 01 Hydref 2026].

⁹⁴ ICO, 2026. Children's and Parents' Attitudes on Information Rights, t.37.

gwasanaethau lle maent yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser.⁹⁵ Felly, mae'n debygol y bydd cyfraddau osgoi gan blant yn codi oherwydd mwy o gymhellion a'r nifer uwch o wiriadau oedran. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd mwy o rannu gwybodaeth am dechnegau osgoi ymysg grwpiau cyfoedion.

- **Esbyliad technegau osgoi:** O ganlyniad i gymhelliant cynyddol i osgoi, efallai y bydd technegau osgoi mwy soffistigedig yn dod i'r amlwg wrth i blant geisio dod o hyd i ffyrdd newydd o amgylch y cyfyngiadau. Efallai y bydd mwy o rannu cyfrifon rhwng y rheini sydd â mynediad at wasanaethau a'r rheini nad oes ganddynt fynediad at wasanaethau, a mwy o osgoi gyda chymorth oedolion.

Sut gellid lliniaru'r risgiau hyn?

4.10 Yng ngoleuni hyn, rydym wedi nodi mesurau posibl a allai helpu i leihau'r risg o osgoi gan blant a chefnogi cadernid prosesau sicrwydd oedran yn 16 oed. Byddwn yn ailedrych ar y mesurau hyn fel rhan o'n canllawiau drafft ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed. Gall y dulliau hyn amrywio o ran eu heffeithiolrwydd, ac mae gan bob un gyfyngiadau y byddai angen eu hystyried yng nghyd-destun y broses sicrwydd oedran gyffredinol:

- **Cyfleu oedran:** gall cyfleu oedran chwarae rôl wrth-osgoi i ganfod defnyddwyr dan oed a allai fod wedi llithro drwy borth oedran effeithiol iawn neu fod yn rhannu cyfrif â defnyddiwr hŷn.⁹⁶ Er enghraifft, gallai modelau cyfleu oedran dynnu sylw at gyfrifon sy'n ymddangos fel pe baent yn perthyn i ddefnyddwyr o dan 16 oed a allai fod wedi osgoi'r gwiriad oedran cychwynnol, a byddai'r cyfrifon hyn wedyn yn cael eu cyfarwyddo i gwblhau gwiriad oedran effeithiol iawn ychwanegol. O ran diogelu data, mae'r Comisiwn Gwybodaeth yn glir bod gweithredu unrhyw ddulliau cyfleu oedran at y diben hwn yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg i sicrhau ei fod yn angenrheidiol, yn effeithiol ac yn gymesur â lefel y risg a gyflwynir i blant ac na ddylid ei ddefnyddio i ddigolledu am borth oedran wan neu nad yw'n bodoli o gwbl.⁹⁷
- **Defnyddio signalau cysylltiedig â lleoliad presennol:** gall signalau sy'n gysylltiedig â lleoliad fel cyfeiriad IP, gosodiadau dyfais ac amser, neu wybodaeth GPS gefnogi mesurau gwrth-osgoi drwy helpu i ganfod defnydd VPN neu ddod o hyd i ddefnyddwyr tebygol yn y DU sy'n destun gofynion sicrwydd oedran sy'n benodol i awdurdodaeth.⁹⁸ Pan geir signalau sy'n gysylltiedig â lleoliad drwy ddefnyddio technolegau storio a mynediad, mae angen caniatâd defnyddwyr o dan Reoliadau

⁹⁵ Ofcom, 2026. [Children's Online Experiences](#), t.10. Roedd TikTok, Snapchat, YouTube, Instagram a Facebook i gyd yn y 10 darparwr gwasanaeth roedd plant yn cofio eu defnyddio fwyaf ac maent yn rhai o'r gwasanaethau mae Llywodraeth y DU wedi dweud y byddant o fewn cwmpas y gwaharddiad.

⁹⁶ ICO, 2026. [Children's Code Strategy progress update](#) [cyrchwyd 26 Awst 2026]. Mae Ymarferoldeb Sicrwydd Oedran AVPA yn 16 oed yn y DU yn awgrymu bod systemau sicrwydd oedran cryf yn dibynnu ar sawl haen o sicrwydd yn hytrach nag un dull dilysu. AVPA, 2026. [Age Assurance at 16 White Paper](#), t.17.

⁹⁷ Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn datgan y dylai gwasanaethau ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg i sicrhau bod unrhyw fesurau sicrwydd oedran yn parhau i fod yn gymesur â lefel y risg a gyflwynir i blant. Sylwch fod Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn galw cyfleu oedran yn 'Proffilio ar gyfer sicrwydd oedran'. . [5. Risk assessment and age assurance](#) [cyrchwyd 27 Hydref 2026]. ICO. [Annex: What we've learned about profiling for age assurance](#). [cyrchwyd 29 Medi 2026].

⁹⁸ Mae Canllawiau Rheoleiddio eDdiogelwch ar y Ddeddf Isafswm Oedran Cyfryngau Cymdeithasol yn nodi bod rhai gwasanaethau'n defnyddio offer geoleoliad ar gyfer canfod VPN amser real. Mae'n argymhell monitro signalau dros amser yn hytrach na dibynnu ar un dangosydd. [eSafety. Social Media Minimum Age Regulatory Guidance \(v 16 Sep 2025\)](#), t.10. [cyrchwyd 26 Awst 2026].

Cyfathrebiadau Preifat ac Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (PECR).⁹⁹ Mae hefyd angen ystyried yn ofalus y posibilrwydd o ddefnyddio signalau sy'n gysylltiedig â lleoliad fel mesur gwrth-osgoi, gan fod modd rhannu VPNs ar draws nifer o ddyfeisiau, ac o ystyried yr effeithiau posibl ar bobl sy'n defnyddio VPNs yn gyfreithlon fel mesur sy'n diogelu preifatrwydd.

- **Adrodd gan ddefnyddwyr:** gall y mecanwaith hwn ddarparu diogelwch ychwanegol drwy alluogi defnyddwyr eraill i fflagio cyfrifon o dan 16 oed. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod cyfyngiadau, tynnu ac analluogi cyfrifon yn gallu gwella cydymffurfiaid pan weithredir ar adroddiadau a phan ddefnyddir hynny yn gywir.¹⁰⁰ Fodd bynnag, er mwyn i lwybrau adrodd fod yn effeithiol, mae angen iddynt fod yn hygyrch, yn hawdd dod o hyd iddynt, ac yn hawdd eu defnyddio. Mae systemau adrodd wedi'u cyfyngu gan adroddiadau anghywir neu faleisus, a chyfyngiadau o ran adnoddau. Felly, efallai y bydd adrodd gan ddefnyddwyr yn fwyaf effeithiol fel un elfen o broses sicrwydd oedran ehangach.

- 4.11 Nodwn y gallai ymdrechion bwriadol gan wasanaethau i hyrwyddo neu hwyluso osgoi (er enghraifft, drwy gyfeirio defnyddwyr at VPNs neu ddulliau eraill o osgoi cyfyngiadau) godi pryderon o ran cydymffurfio. Fel y nodir yn ein canllawiau presennol, ni ddylai darparwyr gwasanaethau gyhoeddi cynnwys sy'n cyfeirio defnyddwyr at ddulliau o osgoi prosesau sicrwydd oedran, fel VPNs, a allai hwyluso ac annog plant i osgoi, a byddai hynny'n cael ei ystyried yn fethiant cydymffurfio.¹⁰¹

Pa rôl allai gweithredwyr eraill yn yr ecosystem ehangach ei chwarae i gefnogi cyfyngiadau oedran newydd?

- 4.12 Er mwyn cryfhau amddiffyniadau a lleihau ffrithiant i ddefnyddwyr, mae yna gwestiynau ynghylch y rôl y gallai gweithredwyr eraill yn yr ecosystem ei chwarae, gan gynnwys systemau gweithredu, dyfeisiau a darparwyr siopau apiau. Mae ein hymgyssylltiad â darparwyr gwasanaethau wedi dangos bod cefnogaeth gref gan rai gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio i wiriadau oedran effeithiol iawn gael eu cynnal yn y siop apiau, ar lefel dyfais neu ar lefel system weithredu fel rhan o ddull 'haenog' o wirio oedran.¹⁰² Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd yn cefnogi rôl fwy i'r actorion hyn yn yr ecosystem, gan nodi efallai na fydd mesurau o'r fath yn ddigonol ym mhob amgylchiad ac na ddylent o reidrwydd ddisodli sicrwydd oedran ar lefel gwasanaeth. Amlygodd y rhanddeiliaid hyn heriau megis dyfeisiau a rennir a mynediad drwy borwyr, a allai olygu bod angen mesurau cyflenwol ar lefel gwasanaeth.¹⁰³
- 4.13 Ochr yn ochr â'r asesiad cyflym hwn, fe wnaethom hefyd gyhoeddi ein hadroddiad statudol ar blant yn defnyddio siopau apiau ym mis Hydref 2026.¹⁰⁴ Mae'r adroddiad yn dangos mai

⁹⁹ Bydd signalau sy'n gysylltiedig â lleoliad a geir drwy ddefnyddio technolegau storio a mynediad yn ymwneud â rheoliad 6 Rheoliadau Cyfathrebiadau Preifat ac Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (PECR) ac angen caniatâd defnyddwyr o dan y ddarpariaeth honno. ICO. [How do the PECR rules relate to the UK GDPR](#). [cychwyd 29 Medi 2026].

¹⁰⁰ Daw AVPA i'r casgliad y gallai dileu cyfrifon, cyfyngiadau ac analluogi gael effaith sylweddol ar gydymffurfio. – AVPA. Age Assurance at 16 White Paper, t.29.

¹⁰¹ Ofcom, 2025. Guidance on highly effective age assurance, t.16.

¹⁰² Ar sail ein hymgyssylltiad â nifer o ddarparwyr gwasanaethau cyfryngau cymdeithasol mawr [3<].

¹⁰³ Ar sail ein hymgyssylltiad â rhanddeiliaid yn y diwydiant [3<].

¹⁰⁴ [Ofcom, 2026. Report on the use of app stores by children](#)

siopau apiau yw'r llwybr mwyaf cyffredin y mae plant yn ei ddefnyddio i gael gafael ar lawer o wasanaethau defnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael eu rheoleiddio. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar siopau apiau, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf, mae'n nodi rhai ystyriaethau ehangach sy'n ymwneud â'r berthynas rhwng siopau apiau, gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio, a gweithredwyr eraill yn yr ecosystem y byddai angen eu hystyried mewn unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol.

- 4.14 Mae ein canllawiau HEAA presennol yn niwtral o ran pwy sy'n cynnal yr atebion sicrwydd oedran effeithiol iawn neu'n sicrhau bod canlyniadau gwiriad oedran ar gael. Cyfrifoldeb y darparwr gwasanaeth a reoleiddir yw sicrhau bod sicrwydd oedran yn cael ei roi ar waith yn y fath fodd fel ei fod yn effeithiol iawn o ran penderfynu a yw defnyddiwr o dan yr oedran sy'n ofynnol gan y rheoliadau ai peidio. Gall gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio ddewis defnyddio atebion sicrwydd oedran sy'n cael eu cynnig gan drydydd partïon sydd naill ai wedi'u hintegreiddio i'w llwyfan neu sy'n cael eu cynnal cyn i ddefnyddwyr gael gafael ar wasanaethau, cynnwys neu swyddogaethau cyfyngedig. Rydym wedi datblygu adnodd [Vet Your Vendor](#) i gefnogi sgysiau diwydrwydd dyladwy darparwyr gwasanaethau gyda gwerthwyr sicrwydd oedran trydydd parti.¹⁰⁵
- 4.15 Mae gan rôl sicrwydd oedran mewn gwahanol rannau o'r ecosystem oblygiadau o ran diogelu data, preifatrwydd a chystadleuaeth. Mae hefyd yn codi cwestiynau ehangach ynghylch llywodraethu, atebolrwydd ac effeithiolrwydd ymyriadau o ran sicrhau canlyniadau diogelwch plant. Mae'r ystyriaethau hyn y tu allan i gwmpas yr adroddiad hwn.
- 4.16 Rydym hefyd yn nodi bod y llywodraeth wedi ymrwymo i edrych ar opsiynau deddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd i orfodi mesurau canfod noethni ar lefel dyfais.¹⁰⁶ Rydym yn gweithio gyda'r llywodraeth i ddeall sut bydd hyn yn gweithio'n ymarferol ac yn rhyngweithio â'r rhwymedigaethau presennol ar wasanaethau.

¹⁰⁵ Ofcom, 2026. [Vet your vendor: a resource to help service providers conduct due diligence on their age assurance vendors](#). [cyrchwyd 15 Hydref 2026].

¹⁰⁶ DCMS, 2026. [UK to have world's strongest online child safety laws as government prepares legislation on nude images](#). [cyrchwyd 09 Hydref 2026].

5. Y camau nesaf

- 5.1 Mae Llywodraeth y DU wedi datgan ei bod yn bwriadu gosod y rheoliadau cyntaf sy'n ymwneud â chyfyngiadau oedran lefel gwasanaeth ar wasanaethau cyfryngau cymdeithasol gerbron y Senedd erbyn diwedd 2026.¹⁰⁷ Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ganllawiau drafft ar gyfer gwasanaethau ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed yn ystod y misoedd nesaf, ar ôl i'r rheoliadau drafft gael eu gosod gerbron y Senedd.
- 5.2 Byddwn yn parhau i fonitro datblygiadau technolegol a datblygiadau sy'n dod i'r amlwg yn y farchnad wrth i ni baratoi ein canllawiau drafft ar sicrwydd oedran effeithiol iawn yn 16 oed. Rydym yn croesawu bwriad y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2026, i wella argaeledd dulliau sicrwydd oedran ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed drwy archwilio mynediad haws at ffyrdd diogel sy'n diogelu preifatrwydd i bobl brofi eu hoedran ar-lein.¹⁰⁸ Rydym hefyd yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu gweithio gyda'r diwydiant i helpu technolegau sicrwydd oedran i barhau i ddatblygu a gwella pa mor gywir y gallant bennu oedran neu ystod oedran defnyddwyr ar yr un pryd â diogelu data personol.¹⁰⁹
- 5.3 Rydym yn barod i weithredu unrhyw gyfyngiadau oedran newydd ac rydym yn parhau â'n paratoadau. Rydym wedi sefydlu perthynas gref â chymheiriaid rhyngwladol, gan gynnwys Comisiynydd eDdiogelwch Awstralia a rheoleiddwyr eraill, sy'n ein galluogi i rannu'r hyn a ddysgwyd am ddylunio a gweithredu cyfyngiadau oedran mewn gwahanol awdurdodaethau. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd wrth i gyfyngiadau oedran newydd gael eu rhoi ar waith yn y DU ac mewn mannau eraill.
- 5.4 Ar ôl i'r rheoliadau fynd drwy'r broses Seneddol a dod i rym, byddwn yn defnyddio ein pwerau i sicrhau bod darparwyr gwasanaethau perthnasol yn gweithredu ac yn cydymffurfio â'r gofynion. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r diwydiant i fonitro'r broses weithredu, asesu cydymffurfiaid a, lle bo angen, cymryd camau gorfodi i sicrhau cydymffurfiaid a diogelu defnyddwyr y DU rhag niwed.
- 5.5 Yn y cyfamser, mae darparwyr gwasanaethau sy'n debygol o gael eu defnyddio gan blant yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau diogelwch plant o dan y Ddeddf. Fel y nodwyd gennym yn ein llythyr agored at ddarparwyr gwasanaethau, byddwn yn parhau i fonitro cydymffurfiaid â'r dyletswyddau presennol hyn i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn ar-lein.¹¹⁰

¹⁰⁷ DSIT, 2026. [Growing up in the online world: progress statement \(June 2026\)](#). [cyrchwyd 26 Awst 2026].

¹⁰⁸ DSIT, 2026. Growing up in the online world.

¹⁰⁹ DSIT, 2026. Growing up in the online world.

¹¹⁰ Ofcom, 2026. [Open letter on reminding services of their duties under the Act](#).

A1. Geirfa

Term	Ystyr
Hygyrchedd	Gallu dull neu broses i weithio i bob defnyddiwr.
Sicrwydd oedran	Term cyfunol ar gyfer dilysu oedran ac amcangyfrif oedran fel y'i diffinnir yn adran 230 Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf).
Dull sicrwydd oedran	Y system neu'r dechnoleg sy'n sail i broses sicrwydd oedran.
Proses sicrwydd oedran	Y broses o'r dechrau i'r diwedd a ddefnyddir i weithredu'r dull sicrwydd oedran neu'r cyfuniad o ddulliau i bennu oedran neu ystod oedran defnyddiwr.
Amcangyfrif oedran	Unrhyw fesur a gynlluniwyd i amcangyfrif oedran neu ystod oedran defnyddwyr gwasanaeth a reoleiddir. ¹¹¹
Porth oedran	Pwynt lle na ddylid caniatáu mynediad at wasanaeth, creu cyfrif ar wasanaeth, na mynediad at nodwedd, swyddogaeth na chynnwys ar wasanaeth, oni bai fod defnyddiwr yn cwblhau gwiriad oedran effeithiol iawn i benderfynu ei fod dros yr oedran gofynnol. Er enghraifft, porth oedran 16 oed.
Cyfleu oedran	Dosbarth eang o dechnegau amcangyfrif sydd fel arfer yn dadansoddi data ymddygiad defnyddwyr a/neu ryngweithiadau defnyddwyr â chynnwys neu swyddogaethau ar wasanaethau, y cyfeirir atynt yn aml fel 'signalau', i bennu oedran.
Gwirio oedran	Unrhyw fesur sydd wedi'i ddylunio i wirio union oedran defnyddwyr gwasanaeth sy'n cael ei reoleiddio. ¹¹²
Dull oedran herio	Proses sicrwydd oedran sy'n cynnwys dau gam lle, ar ddiwedd cam cyntaf y broses, y canfyddir bod amcangyfrif o oedran defnyddiwr yn is nag oedran penodedig, y cymerir camau pellach i amcangyfrif neu wirio oedran y defnyddiwr cyn penderfynu a yw'r defnyddiwr yn hŷn nag oedran penodedig.
Osgoi	Camau(au) bwriadol a gymerir gan ddefnyddiwr i gael mynediad at wasanaeth, swyddogaeth neu gynnwys â chyfyngiad oedran, nad ydynt yn bodloni'r gofyniad oedran perthnasol ar eu cyfer. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys: (a) osgoi neu geisio osgoi'r porth oedran yn gyfan gwbl, megis drwy ddefnyddio rhwydwaith preifat rhithwir (VPN); (b) camliwio eu hoedran; neu (c) defnyddio manylion adnabod person arall.
Dadleoli	Defnyddwyr yn symud o un gwasanaeth i'r llall, er enghraifft o wasanaethau â sicrwydd oedran i'r rheini sydd hebddo. Cyfeirir ato hefyd fel mudo defnyddwyr.

¹¹¹ Diffinnir amcangyfrif oedran yn adran 230(3) Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 (y Ddeddf).

¹¹² Diffinnir gwirio oedran yn adran 230(2) y Ddeddf.

Term	Ystyr
Tegwch	I ba raddau y mae dull sicrwydd oedran yn osgoi neu'n lleihau rhagfarn a chanlyniadau gwahaniaethol.
Y gallu i ryngweithredu	Gallu systemau technolegol i gyfathrebu â'i gilydd gan ddefnyddio fformatau cyffredin a safonol.
Canfod bywioldeb	Nodwedd sy'n cael ei defnyddio i sicrhau nad yw'r wyneb sy'n cael ei ddadansoddi yn llun, yn fideo nac yn unrhyw fath arall o gynrychiolaeth ffug. Y prif nod yw atal ymosodwyr rhag defnyddio delweddau statig (ymosodiad print) neu fideos wedi'u recordio ymlaen llaw (ymosodiad ailchwarae) i dwyllo'r system i wneud amcangyfrifon anghywir o oedran.
Gwall Absoliwt Cymedrig (MAE)	Gwerth canolog y gwall absoliwt. Mae'n disgrifio'r anghysondeb cyfartalog rhwng oedran y defnyddiwr a bennwyd gan dechnoleg a'i oedran gwirioneddol, gan anwybyddu a yw'n oramcangyfrif neu'n danamcangyfrif. Caiff ei gyfrifo drwy grynhoi'r gwallau absoliwt ar gyfer nifer penodol o wallau absoliwt, ac yna rhannu hyn â nifer y gwallau absoliwt.
Gwasanaethau Rhan 3	Gwasanaeth chwilio neu ddefnyddiwr-i-ddefnyddiwr sy'n cael ei reoleiddio o dan y Ddeddf. ¹¹³
Dogfen ID llun	Dogfen neu ffynhonnell ddata gymeradwy sy'n gallu darparu priodoledd oedran dibynadwy, fel pasbort, trwydded yrru dros dro, cerdyn PASS, gwybodaeth banc neu lwybr hunaniaeth ddigidol wedi'i ddilysu
Dibynadwyedd	I ba raddau mae'r allbwn oedran o ddull sicrwydd oedran yn atgynrchadwy ac yn deillio o dystiolaeth ddibynadwy.
Cadernid	I ba raddau y gall dull sicrwydd oedran bennu oedran defnyddiwr yn gywir mewn cyd-destunau defnyddio gwirioneddol.
Cywirdeb technegol	I ba raddau y gall dull sicrwydd oedran bennu oedran defnyddiwr yn gywir o dan amodau labordy profi.

¹¹³ Adran 4 y Ddeddf.